# Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru 2014

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **5** |
| **1. Crynodeb Gweithredol gan gynnwys Argymhellion** | **7** |
| **2. Cyflwyniad a Chefndir** | **11** |
| Cyflwyniad | **11** |
| Trosolwg ar y Ddarpariaeth Bresennol yng Nghymru | **12** |
| Arolygon Diweddar o'r Rhai sy'n Defnyddio/Ddim yn Defnyddio Llyfrgelloedd | **13** |
| Polisi Llywodraeth Cymru | **13** |
| Ymchwiliad Byr gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Lyfrgelloedd Cyhoeddus | **15** |
| **3. Newidiadau i Ddarpariaeth Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn 2014-2015** | **19** |
| Trosolwg Ariannol | **19** |
| Cynhyrchu Incwm | **19** |
| Effaith Lleihau'r Cyllid ar Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus | **20** |
| Awdurdodau Lleol yn Ymgynghori ar y Newidiadau Arfaethedig | **21** |
| Yr Effaith ar Ddefnyddwyr a Chymunedau | **24** |
| Cynllunio Strategol | **27** |
| Llyfrgelloedd a Reolir gan y Gymuned | **28** |
| Amserlenni Heriol | **30** |
| Effaith y Newidiadau Arfaethedig ar Berfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru | **30** |
| Gwasanaeth Cynhwysfawr ac Effeithlon | **32** |
| **4. Modelau Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol** | **35** |
| Cais am Dystiolaeth | **35** |
| Tueddiadau i'r Dyfodol o ran Darparu Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus | **36** |
| Gweithlu'r Llyfrgelloedd | **40** |
| Modelau Cynaliadwy ar gyfer Darparu Gwasanaethau | **43** |
| Amser am Newid | **48** |
| Fframwaith Deddfwriaethol | **49** |
| Deddfau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Eraill | **50** |
| Pwerau Deddfwriaethol | **51** |
| **5. Sylwadau i Gloi** | **53** |
| Atodiad 1: Cylch Gorchwyl | **55** |
| Atodiad 2: Llyfryddiaeth Ddethol | **58** |
| Atodiad 3: Hawliau Craidd | **60** |


CROESO
DATBLYGU
dysgu
resources
resources
READING
COMMUNITY
education
skills
support
culture
answers
access
BOOKS
ASPIRATION

# Rhagair




Yr hyn sydd yn allweddol o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yw dyletswydd statudol yr awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd 'cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio'. Yn yr Adolygiad hwn, ceisiodd y Panel wneud argymhellion ynghylch sut y gellid cyflawni'r gofynion statudol yn y dyfodol, ond gan fod rhywfaint yn bragmataidd o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.

Mae'n glir na ellir cynnal y status quo mwyach. Mae cytundeb cyffredinol ar y ddarpariaeth, a nodir ym Mhumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, ond sut orau y gellir cyflawni hyn er mwyn cynnal ansawdd a pherthnasedd y gwasanaeth i bobl Cymru?

Ystyriodd y Panel amrywiol fodelau ac mae ein hadroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, rhai y dylid gweithredu arnynt ar unwaith, eraill i'r tymor hwy. Mae'n rhaid i lyfrgelloedd cyhoeddus fabwysiadu atebion arloesol a rhagweithiol i symud ymlaen mewn oes pan fydd y cyhoedd yn dal i ddisgwyl yr holl wasanaethau traddodiadol, ynghyd ag ystod gyflawn o wasanaethau newydd, rhai digidol a rhai cymunedol. Mae'n ymddangos fod cydweithredu rhwng awdurdodau ac o fewn awdurdodau, cydleoli â gwasanaethau eraill a defnydd priodol o wirfoddolwyr, i gyd yn ddewisiadau mwy cynaliadwy na throsglwyddo pwyntiau gwasanaeth yn eu cyfanrwydd i'w cymunedau lleol.

Pwysleisiodd ein trafodaethau fod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ceisio darparu buddion i'r defnyddiwr a chynnal natur statudol y ddarpariaeth lle mae'r cyfrifoldeb am y gwasanaeth yn cael ei ddiffinio, boed dan strwythur presennol yr awdurdodau lleol neu mewn modd ehangach. Fe wnaethom ystyried ystod eang o dystiolaeth o bob cwr o'r DU a ledled y byd, gan gynnwys ymgynghori'n benodol ag awdurdodau llyfrgell Cymru a chyrff eraill sydd â diddordeb yn y maes.
Y cwestiwn yn awr yw, a yw awdurdodau lleol Cymru yn fodlon mabwysiadu syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio, er mwyn parhau i gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ardderchog i ddefnyddwyr ledled y wlad?



**Claire Creaser**
**Cadeirydd**

## Aelodau'r Panel



Dr Steve Davies



Peter Gomer



Yr Athro Hywel Roberts


Welsh
India
501
CRUISING

# 1. Crynodeb Gweithredol gan Gynnwys Argymhellion

*"Mae fy mhlant i a minnau yn caru llyfrau, mae'r llyfrgell yn golygu fy mod i wedi gallu cael llyfrau i mi eu darllen i'r plant, felly mae'r plant yn cael llyfrau ar gyfer eu lefelau darllen nhw. Mae'r llyfrgell wedi bod yno hefyd i'm helpu gyda fy nghwrs yn y coleg. A gwybodaeth feddygol hefyd. Ni fyddai'r byd yr un peth heb lyfrgelloedd. Maen nhw ar gael i blant ac oedolion nawr ac yn y dyfodol."*[1]

(Un o ddefnyddwyr llyfrgelloedd Sir y Fflint, 26-49 mlwydd oed)

1. Ers dros 150 o flynyddoedd mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn chwarae rôl ganolog fel canolfannau diwylliannol ac addysgol mewn cymunedau ledled Cymru. Maent yn rhoi mynediad yn ddi-dâl at adnoddau, gwybodaeth a gweithgareddau. Maent yn hyrwyddo llythrennedd, dysgu gydol oes a lles pobl Cymru. Gwnaed dros 14.67 miliwn o ymweliadau ag adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn 2013-14 yn ôl y data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

2. O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[2] mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell (awdurdodau lleol) yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r Ddeddf wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru ac ar hyn o bryd dyletswydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw "arolygu a hyrwyddo" gwella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

3. Ym mis Hydref 2013 fe ddaeth yn amlwg y byddai pwysau sylweddol ar gyllid awdurdodau lleol yng Nghymru o 2014-15 ymlaen oherwydd y cyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol. Ym misoedd Hydref a Thachwedd fe ddaeth yn amlwg y byddai'r pwysau o ganlyniad i hyn ar gyllid awdurdodau lleol yn golygu newidiadau pellgyrhaeddol a lleihad yn narpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

4. Mewn Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013 cyhoeddodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd y byddai'n comisiynu adolygiad arbenigol o gynlluniau awdurdodau lleol i gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, bryd hynny ac yn y dyfodol. Dechreuodd y Panel ar ei waith ym mis Chwefror 2014, gyda chymorth Is-adran CyMAL: Amgueddfeydd Archifau a Llyfrgelloedd Cymru, Llywodraeth Cymru, gan adolygu tystiolaeth sylweddol gan wahanol randdeiliaid oedd â sbectrwm eang o farn yn ogystal ag adolygu datblygiadau ledled y byd.

5. Cadarnhaodd yr adolygiad unwaith eto bwysigrwydd y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, gan gadarnhau y bydd y gwasanaethau'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar fywyd unigolion a'u cymunedau i'r dyfodol. Bydd llyfrgelloedd yn chwarae rôl allweddol wrth barhau i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel cynhwysiant cymdeithasol, dysgu gydol oes, llythrennedd, cynhwysiant digidol, iechyd a lles a chydlyniant cymunedol.

6. Nododd y Panel fod llawer o gynnydd wedi'i wneud o ran darparu gwasanaethau llyfrgell gwell fel rhan o strategaethau blaenorol Llywodraeth Cymru a'r strategaeth bresennol, *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*. Mae'r gwelliannau'n cynnwys: moderneiddio adeiladau'r llyfrgelloedd, caffael e-wasanaethau ar y cyd, cyflwyno mentrau newydd fel 'Pob Plentyn yn Aelod o'r Llyfrgell' a system reoli llyfrgelloedd i Gymru. Fodd bynnag, fe ddaeth i'r casgliad, oni bai fod newid sylweddol yn lefel y

---

1 Llywodraeth Cymru. (2011). *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol ar gyfer datblygu Llyfrgelloedd Cymru 2012-16.* Ar gael yn http://tinyurl.com/d5klr9y

2 Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.* Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75

cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i gydweithio i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol a'r wasgfa ariannol, y caiff darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru ei niweidio'n anadferadwy ac na fydd yn gallu diwallu anghenion cymunedau lleol mwyach.

7. Roedd y panel o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o fis Ebrill 2014 ymlaen yn cael effaith sylweddol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ac, o ganlyniad, ar lefel defnydd y llyfrgelloedd. Mae toriadau a wnaed cyn 2014 eisoes yn cyfrannu at ddiwedd y cynnydd a welwyd yn niferoedd ymwelwyr ac mae'n rhesymol casglu bod gwario llai ar y ddarpariaeth yn gwneud yr hyn a gynigir i'r cyhoedd yn llai deniadol. Mae effaith y lleihad mewn gwariant sy'n ofynnol o 2014-15 ymlaen yn debygol o arwain at sefyllfa debyg i'r un yn Lloegr lle gwelwyd lleihad sylweddol yn y cyllid ac o ganlyniad llai o lyfrgelloedd, ymweliadau, eitemau'n cael eu benthyg a staff ers 2011-12. Mae nifer y gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd wedi cynyddu ac mae mwy o lyfrgelloedd yn cael eu rheoli gan gymunedau yn awr.

8. Roedd pawb yn cytuno na ellir disgwyl tan ar ôl ad-drefnu llywodraeth leol, y disgwylir yn awr iddo ddigwydd yn 2018-19, oherwydd y newidiadau sylweddol sy'n debygol o ddigwydd o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cyn hynny. Mae'n hanfodol felly rhoi ystyriaeth bendant i fodelau cydweithio wrth ddarparu gwasanaethau, eu hasesu, ac os ydynt yn addas eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd cyn i unrhyw uno ffurfiol ddigwydd gyda'r awdurdodau lleol.

9. Byddai'r Panel yn argymell yr argymhellion canlynol i'r Dirprwy Weinidog eu hystyried, llawer ohonynt i'w gweithredu ar unwaith. Dylid ymgynghori ymhellach ar rai o'r lleill, sef modelau newydd, radical ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, a dylai'r rheini fod wrth wraidd datblygu strategaeth llyfrgelloedd newydd i Gymru ar ôl 2016.

## Argymhellion

### Rheoli Newid

I. Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu canllawiau arferion da a fydd yn helpu awdurdodau lleol a'u gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i ymgynghori ar wasanaethau. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a hyrwyddo defnydd effeithiol o'r myrdd o adnoddau ar-lein sydd ar gael, gan gynnwys Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Pecyn Cymorth Gwerthuso.

II. Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu arferion da i helpu awdurdodau lleol i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant a hyrwyddo defnydd o'r Ffocws Ymarfer ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cael ei ddatblygu gan CLlLC a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ar gyfer staff gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

III. Ni ddylid gweithredu newidiadau i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cyn cynhyrchu dewisiadau wedi'u costio a dylid eu gwerthuso yn ôl:

a) datblygu amserlenni priodol;

b) yr asesiadau o effaith y mae angen eu cwblhau;

c) y cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau cyfagos neu bartneriaid darparu eraill.

Dylid gweithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith.

IV. Dylai CyMAL weithredu yn syth i gasglu tystiolaeth ac asesu pa effaith a gaiff y newidiadau arfaethedig yn y modd y darperir gwasanaethau llyfrgelloedd ar gymunedau, yng nghyd-destun gofynion statudol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau

Gwent er mwyn goleuo penderfyniadau gan awdurdodau lleol eraill i'r dyfodol. Dylai CyMAL gyhoeddi adroddiad ar ôl cyfnod cychwynnol o 3 mis o ymchwil ac adroddiad llawn ar ôl 12 mis.

### Gwelliannau Strategol

V. Dylai pob gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus ddatblygu strategaeth ar sail tystiolaeth a chanlyniadau, i ddechrau yn 2015-16, gan amlinellu sut y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Dylid cyhoeddi'r strategaethau ar wefan y gwasanaeth llyfrgelloedd. Dylid defnyddio'r ddogfen hon fel arf cynllunio strategol a'i hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r arferion corfforaethol presennol. I gefnogi'r strategaeth gwasanaeth llyfrgelloedd dylid cael cynllun darparu sy'n amlinellu sut y rhoddir y strategaeth ar waith, gan gynnwys asesiad cerdyn sgorio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Un enghraifft o'r math gorau o arferion yw cynllun datblygu pum mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n seiliedig ar eu strategaeth 10 mlynedd.

VI. Dylai CyMAL gydweithio â staff, cyflogwyr, Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, Cymdeithas Siartredig a Gweithwyr Gwybodaeth (CILIP) Cymru a'r undebau llafur i ddatblygu cynllun datblygu'r gweithlu cynhwysfawr ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus ac i gwrdd ag anghenion staffio'r dyfodol. Dylai'r cynllun bara pum mlynedd gan ddechrau yn 2015-16. Ym marn y Panel dylid rhoi hyfforddiant penodol i wirfoddolwyr fel grŵp arbennig i ddiwallu eu hanghenion penodol.

VII. Dylai awdurdodau lleol gydnabod yr angen am fwy o bwyslais, a hynny ar frys, ar gynlluniau cydweithredol yn eu strategaethau ar gyfer darparu llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol, yn enwedig rhwng adrannau awdurdodau lleol, ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol a chyda llyfrgelloedd eraill yn y sector cyhoeddus, a dylent ymateb i'r angen hwnnw. Dylai'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ystyried, wrth benderfynu beth yw gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon", berfformiad ac ymroddiad yr awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau mewn modd cydweithredol.

VIII. Ni ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned (sef yr hyn a amlinellir ym mharagraff 83) fel rhan o'r ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd, yn amodol ar ganfyddiadau'r ymchwil a gynigir yn argymhellion IV a IX. Ni ddylid cynnwys data am lyfrgelloedd nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn yr adroddiadau dan y Fframwaith ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

IX. Dylai CyMAL gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau a dogfennaeth briodol ar gyfer cytundebau partneriaeth sy'n nodi'r gofynion sylfaenol a fyddai'n galluogi llyfrgell a gefnogir gan y gymuned i gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol perthnasol fel rhan o'r broses hon. Dylai CyMAL ddatblygu, erbyn mis Ionawr 2015, y meini prawf i lyfrgell a gefnogir gan y gymuned gael ei chynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol a rhoi'r rhain ar waith o fis Ebrill 2015 ymlaen.

### Modelau Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol

X. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLlLC a'r awdurdodau lleol i symud ymlaen gyda'r gweithredoedd strategol canlynol:

a) hyrwyddo mwy o gydweithio ar raddfa ehangach rhwng awdurdodau a hynny ar unwaith

b) datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn unol ag unrhyw fodel i lywodraeth leol a ddatblygir yng Nghymru yn y dyfodol a hynny fel ymrwymiad parhaus

c) datblygu dull o gydweithio ar lefel consortia rhanbarthol neu genedlaethol i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y tymor canol (3-5 mlynedd), a hyn yn cael ei hwyluso gan gorff a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn derbyn cyllid addas

d) gweithio tuag at nod terfynol o greu gwasanaeth llyfrgelloedd i Gymru a gyd-drefnir yn genedlaethol.

XI. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r broses ddeddfwriaethol angenrheidiol a fyddai'n rhoi statws canllawiau statudol i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, mewn perthynas â'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r gofynion newidiol i'r llyfrgell gyhoeddus gyflenwi gwasanaethau ar y cyd ag eraill mewn byd digidol.



# 2. Cyflwyniad a Chefndir

## Cyflwyniad

*Bydd llyfrgelloedd yn ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau darllen, gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chyfoethogi ansawdd eu bywydau ac i roi'r grym iddynt i wireddu eu llawn potensial. Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*[3]

10. Ers dros 150 o flynyddoedd mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn chwarae rôl ganolog fel canolfannau diwylliannol ac addysgol mewn cymunedau ledled Cymru. Maent wedi rhoi mynediad yn ddi-dâl at adnoddau, gwybodaeth a gweithgareddau. Maent yn hyrwyddo llythrennedd, dysgu gydol oes a lles pobl Cymru. Mewn gwybodaeth mae nerth ac mae llyfrgelloedd, fel y nodir yn natganiad gweledigaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* uchod, yn grymuso pobl ac yn gwneud gwir wahaniaeth i'w bywydau.

11. O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[4] mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod llyfrgell (awdurdodau lleol) yng Nghymru i "ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio". Dywed y ddeddf hefyd fod dyletswydd orfodol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau i fenthyca llyfrau a deunyddiau eraill i'r rhai sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol, y rhai sy'n gweithio neu'r rhai sy'n derbyn addysg lawn amser yn yr ardal honno.

12. Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r Ddeddf wedi cael ei ddatganoli i'r Cynulliad dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac wedyn i Weinidogion Cymru dan adran 162 a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar hyn o bryd dyletswydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw "arolygu a hyrwyddo" gwella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

13. Ar 3 Rhagfyr 2013 fel rhan o'i ddyletswydd statudol, cyhoeddodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd Adolygiad Arbenigol (yr Adolygiad) o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru fel rhan o'i ddyletswydd i arolygu a hyrwyddo gwella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Roedd dau bwrpas i'r Adolygiad hwn, sef:

- Adolygu'r newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o fis Ebrill 2014 ymlaen er mwyn asesu a yw'r ddarpariaeth ddiwygiedig yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon ledled Cymru, gan dynnu sylw at yr arferion gorau ac unrhyw bryderon.
- Adnabod modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau i'r dyfodol a fydd yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a geir trwy gydweithio, partneriaeth ac arloesedd.

Mae'r Cylch Gorchwyl llawn i'w weld yn Atodiad 1.

14. Cynhaliwyd yr Adolygiad gan Banel Cyfeirio (y Panel) dan gadeiryddiaeth Claire Creaser, Cyfarwyddwr LISU, Prifysgol Loughborough; gyda'r Athro Hywel Roberts, arbenigwr ar lyfrgelloedd; Dr Steve Davies, Darlithydd, Prifysgol Caerdydd; a Peter Gomer, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad terfynol a'r argymhellion i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd ym mis Gorffennaf 2014 yn unol â'r gofyn.

15. Cafodd tystiolaeth fanwl ei chasglu a'i hystyried, o wahanol ffynonellau gan gynnwys:

- Ymchwil pen desg, gyda chymorth staff CyMAL ar ystod eang o faterion:
  - Darpariaeth bresennol llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru a gweddill y DU, Gweriniaeth Iwerddon a thu hwnt.

---

[3] Llywodraeth Cymru. (2011). *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol ar gyfer datblygu Llyfrgelloedd Cymru 2012-16.* Ar gael yn http://tinyurl.com/d5klr9y

[4] Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.* Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75

  - Enghreifftiau o strategaethau a modelau darparu gwasanaethau llyfrgell o Gymru a thu hwnt,
  - Tueddiadau i'r dyfodol o ran darparu llyfrgelloedd,
  - Deddfwriaeth yn ymwneud â llyfrgelloedd, cyhoeddus;
- Gwybodaeth a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i gyllid a darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn 2014-15, gan gynnwys gweithgareddau ymgynghori ac asesiadau o effaith a wnaed.
- Gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.
- Llawer o ohebiaeth oddi wrth y cyhoedd at CyMAL mewn perthynas â chynigion i gau llyfrgelloedd cyhoeddus a gwneud newidiadau i sut y darperir gwasanaethau;
- Tystiolaeth ysgrifenedig i'r Panel mewn perthynas â syniadau ar gyfer modelau darparu gwasanaethau i'r dyfodol;
- Cyfraniadau arbenigol aelodau'r Panel.

16. Yn ogystal â rhannu gwybodaeth a chynnal darnau unigol o ymchwil, cynhaliodd y Panel bedwar cyfarfod a tair telegynhadledd i drafod y dystiolaeth a datblygu'r argymhellion. Trafodwyd â'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd yr Adroddiad Drafft gydag argymhellion yn ystod cyfarfod y Panel ar 8 Gorffennaf 2014. Cyflwynwyd yr Adroddiad Terfynol i'r Gweinidog ym mis Awst.

17. Bydd yr Adroddiad hwn a'i argymhellion yn goleuo ac ysgogi trafodaeth ar bolisïau presennol ar lyfrgelloedd a dylanwadu ar fframwaith strategol newydd ar gyfer datblygu llyfrgelloedd yng Nghymru i olynu'r fframwaith *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* a fydd yn cael ei gwblhau yn 2016. Mae'r Panel yn croesawu'r bwriad i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar gyfer sylwadau pellach yn yr hydref, 2014.

## Trosolwg ar y Ddarpariaeth Bresennol yng Nghymru

18. Mae 22 o awdurdodau llyfrgell gyhoeddus yng Nghymru ar hyn o bryd gan fod y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu darparu gan yr awdurdod lleol. O fis Hydref 2014 ymlaen, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent bwriedir darparu'r gwasanaeth llyfrgelloedd fel rhan o ymddiriedolaeth hamdden a diwylliant. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae ymddiriedolaeth yn darparu ochr weithredol y gwasanaeth llyfrgelloedd a gydleolir mewn tair canolfan hamdden.

19. Yn ôl yr ystadegau blynyddol diweddaraf sydd ar gael, ar gyfer 2012-13[5], a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ceir:

- 291 o fannau gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus sy'n agored am 10 awr yr wythnos neu ragor;
- 14.675 miliwn o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru;
- 13.969 miliwn o eitemau yn cael eu benthyg i'r cyhoedd;
- 1.9 miliwn awr o ddefnyddio cyfrifiaduron personol a'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus;
- cyflogir 1,112.4 o aelodau o staff, cyfwerth ag amser llawn, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru;
- buddsoddir £17.191 miliwn o arian refeniw mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

20. Mae'r sefyllfa wedi aros yn weddol sefydlog tan yn ddiweddar, pan wnaeth rhai awdurdodau leihau'r ddarpariaeth er mwyn lleihau gwariant yn sgil setliadau cyllidebol gan Lywodraeth Cymru. Dylid nodi bod yr awdurdodau wedi lleihau mwy ar y gyllideb ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus na'r lleihad cyffredinol yng nghyfanswm eu cyllidebau yn sgil diogelu cyllidebau iechyd a'r cynnydd yng nghyllidebau ysgolion.

[5] CIPFA. (2014). *Public Library Statistics 2013/14 Estimates and 2012/13 Actuals.*

## Arolygon Diweddar o'r Rhai sy'n Defnyddio/Ddim yn defnyddio Llyfrgelloedd

21. Cynhaliwyd yr arolwg cynhwysfawr diweddaraf o bobl sy'n defnyddio/ddim yn defnyddio llyfrgelloedd cyhoeddus, gan IPSOS Mori ar ran y Carnegie UK Trust. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil, sef *A New Chapter – Public Library Services in the 21st Century*[6], yn 2012. Adolygodd yr adroddiad hwn y sefyllfa yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon a Chymru. Mae'n darparu meincnod defnyddiol gan fod yr arolwg cynhwysfawr wedi cael ei gynnal yn yr un modd ymhob gwlad. Arolygwyd cyfanswm o 1,018 o oedolion 16 oed a hŷn yng Nghymru.

22. Cynhyrchodd y Carnegie UK Trust daflen wybodaeth gryno o ddata Cymru am agweddau at wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a'r defnydd a wneir ohonynt. Mae'r data llawn ar gael ar-lein[7]. Dangosodd y canlyniadau ar gyfer Cymru fod:

- Dros dri chwarter (77%) y bobl yng Nghymru yn dweud bod llyfrgelloedd yn bwysig iawn neu'n hanfodol i'w cymuned.
- Roedd 45% o'r rhai a holwyd wedi defnyddio llyfrgell gyhoeddus yn y 12 mis blaenorol.
- Roedd y rhai sy'n eu defnyddio'n aml yn fwy tebygol o weithio'n rhan amser, neu roeddent yn bobl nad ydynt yn gweithio neu sydd wedi ymddeol, yn hytrach nag yn gweithio'n llawn amser.
- Er mai'r rhai yng ngŵp cymdeithasol E oedd leiaf tebygol o fod wedi ymweld â llyfrgell yn y 12 mis diwethaf, y rhai a oedd wedi gwneud oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn ymweld â'u llyfrgell leol 'o leiaf unwaith yr wythnos' (30%), tra mai'r rhai yng ngrwpiau cymdeithasol AB a C oedd leiaf tebygol 'o fod wedi ymweld o leiaf unwaith yr wythnos ' (18% ac 17% yn ôl eu trefn);
- Yng Nghymru, roedd perthynas bositif, o arwyddocâd ystadegol, rhwng dau ffactor ac amlder defnyddio llyfrgelloedd: sef pobl sy'n darllen llawer a phobl sy'n byw mewn ardal drefol.

23. Mae *A New Chapter* hefyd yn darparu data cymharol ar dueddiadau cyfredol o ran defnyddio llyfrgelloedd, gwasanaethau craidd a barn ac anghenion y cyhoedd mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgelloedd yn y DU ac Iwerddon.

24. Mae'r data diweddaraf ynghylch boddhad defnyddwyr a gyflwynwyd fel rhan o'r Pedwerydd Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn 2013-14 yn dangos sgôr boddhad uchel iawn, sef rhwng 95% a 100%. Yr unig feysydd y nododd y defnyddwyr eu bod yn llai na boddhaol oedd adeiladau hŷn a'r lleihad yn y stoc llyfrau.

25. Ystyriodd y Panel hefyd nifer o adroddiadau eraill, gan gynnwys ymchwil a gomisiynwyd gan CyMAL, a amlinellir yn y llyfryddiaeth (gweler Atodiad 2).

## Polisi Llywodraeth Cymru

26. O 2002 ymlaen, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (y Safonau) mewn fframweithiau o gylchoedd tair blynedd i fonitro darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Safonau i fonitro ac asesu perfformiad gwasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol fel rhan o'r gofyniad statudol Gweinidogol i arolygu llyfrgelloedd cyhoeddus. Amlinellir ym mharagraffau 92-104 yr adolygiad diweddaraf o sut y mae'r awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r Safonau ac effaith bosibl newidiadau arfaethedig yn 2014-15.

27. Yn 2004, sefydlodd Llywodraeth Cymru CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru i gynghori Gweinidogion a datblygu polisi llyfrgell i Gymru. Rhoddwyd

[6] Carnegie UK Trust. (2012). *A New Chapter: Public Library Services in the 21st century.* Ar gael yn http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter

[7] Carnegie UK Trust. (2012). *A New Chapter: Public Library Services in the 21st century – Welsh data about attitudes to and use of public libraries.* Ar gael yn http://carnegieuktrust.org.uk/publications/2012/a-new-chapter---wales-factsheet


swyddogaeth arall i CyMAL hefyd, sef rhyngweithio tu allan i'r Llywodraeth a chefnogi gwelliannau yn narpariaeth llyfrgelloedd yng Nghymru a hyrwyddo ymagweddau arloesol. Ategwyd i'r rhaglen o grantiau refeniw gan ffrwd o arian cyfalaf ar gyfer moderneiddio llyfrgelloedd cyhoeddus o 2007-08 ymlaen.

28. Mae CyMAL wedi gweithio gyda'r sector i weithredu tri fframwaith datblygu strategol ers 2004, sef @ *Eich Llyfrgell Chi, Llyfrgelloedd am Oes*, a'r fframwaith presennol *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* (2012-2016). Mae gwerthusiadau annibynnol ar y fframweithiau blaenorol i'w gweld ar dudalennau CyMAL ar wefan Llywodraeth Cymru[8]. Roedd y broses gwerthuso yn cynnwys casglu tystiolaeth gan ddefnyddio grwpiau ffocws ac arolygon staff, defnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn defnyddio llyfrgelloedd.

29. Blaenoriaethau strategaeth *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yw:

- cydweithio i adolygu modelau presennol o ddarparu gwasanaethau yn sgil yr hinsawdd economaidd bresennol a datblygu modelau newydd arloesol o'u darparu;
- datblygu cydweithio wrth gaffael adnoddau a gwella mynediad iddynt, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein newydd fel e-lyfrau;
- moderneiddio adeiladau llyfrgelloedd cyhoeddus i ddiwallu anghenion newidiol eu defnyddwyr;
- gwneud y defnydd gorau o gyfraniad llyfrgelloedd i ddatblygu sgiliau pobl, i helpu pawb i gyrraedd eu potensial, lleihau anghydraddoldeb a gwella lles economaidd a chymdeithasol;
- buddsoddi i ddatblygu sgiliau staff llyfrgelloedd;


**Ffigur a:**
**Ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr (Gwir Ymweliadau, CIPFA)**




[8] Simon, A. a Horton, S. (2008). *Gwerthuso @ Eich Llyfrgell Chi: rhaglen strategol gychwynnol datblygu llyfrgelloedd 2005-2007*. Ar gael yn http://tinyurl.com/m7sdyr8

Scotinform. (2011). *Gwerthusiad Llyfrgelloedd am Oes.* Ar gael yn http://tinyurl.com/6d2y97b

**Ffigur b:**
**Gwariant refeniw ar Wasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr (Gwir Wariant, CIPFA)**




- gweithredu rhaglen gydlynol i ddatblygu cynulleidfaoedd ledled Cymru i gyfoethogi bywydau unigolion a chymunedau;
- sicrhau y darperir gwasanaeth o ansawdd uchel trwy fentrau fel Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

30. Yn dilyn cyflwyno polisi strategol i lyfrgelloedd, gan gynnwys datblygu'r Safonau, a chael mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a gwasanaethau llyfrgell, gwelwyd cynnydd o 5% mewn ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus (ffigur a) a 19% o ran buddsoddiad (ffigur b) mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf.

31. Mae cymhariaeth â gweddill y DU yn awgrymu bod y Safonau, dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi bod yn effeithiol o ran darparu gwasanaeth mwy cyson ledled Cymru ac wedi arwain at welliannau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Trwy gydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, CLlLC a'r awdurdodau lleol, mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi ennill eu plwyf fel y prif fecanwaith i fonitro darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

32. Lansiwyd Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru[9] gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd, ym mis Mai 2014 ac fe'i datblygwyd i gynnwys dangosyddion canlyniadau i fesur effaith gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ar fywydau pobl.

## Ymchwiliad Byr gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Lyfrgelloedd Cyhoeddus

33. Cynhaliodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Pwyllgor) ymchwiliad byr i lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru[10].

9 Llywodraeth Cymru. (2014). *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017.* Ar gael yn http://tinyurl.com/pde7toz

10 Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. (2013/14). *Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus.* Ar gael yn http://tinyurl.com/q4mu9k5

Ym mis Tachwedd 2013 gwahoddodd Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor, dystiolaeth ysgrifenedig a derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar hefyd gan randdeiliaid allweddol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ddechrau 2014. Hefyd, cynhaliwyd grwpiau ffocws ac arolwg ar-lein er mwyn ymgysylltu'n ehangach â'r cyhoedd.

34. Gwahoddodd y Pwyllgor gyfraniadau ar y themâu canlynol:

*Y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ymrwymiadau ei Rhaglen Llywodraethu sy'n ymwneud â llyfrgelloedd, a pha mor gynaliadwy yw unrhyw gynnydd yn yr hinsawdd sydd ohoni.*

*I ba raddau y mae'r fframweithiau deddfwriaeth a pholisi presennol yn addas i ateb yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru.*

*Pa mor barod yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar gyfer lliniaru effaith toriadau yn y sector cyhoeddus ar wasanaethau llyfrgelloedd.*

*Opsiynau ar gyfer gwella cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau llyfrgelloedd, gan gynnwys modelau amgen ar gyfer eu darparu.*

*Y rôl gyfoes a chymunedol sydd gan lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.*

35. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor, *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru*[11], ar 23 Gorffennaf 2014. Pwysleisiodd yr adroddiad y rôl "bwysig iawn" y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ei chwarae yn ein cymunedau a'r cyfraniad maent yn ei wneud tuag at amrywiaeth o feysydd portffolio. Gwnaeth y Pwyllgor 10 argymhelliad i'r Gweinidog.

36. Ystyriodd y Panel yr argymhellion hyn a cheir amlinelliad o'i ystyriaethau isod.

### Argymhelliad 1 y Pwyllgor

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar sefyllfa llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.*

Mae'r Panel yn cefnogi'r argymhelliad hwn. Yn ogystal â monitro cynnydd o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, byddai'n darparu cyfle hefyd i dynnu sylw at yr enghreifftiau rhagorol o arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell arloesol. Gallai'r adroddiad blynyddol ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael eisoes fel Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, yr asesiad cerdyn sgorio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a wnaed gan awdurdodau a Chynllun Darparu Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli. Fodd bynnag, gan fod strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli yn cwmpasu gwahanol sectorau llyfrgell yng Nghymru, byddai'n fuddiol petai'r adroddiad hefyd yn draws-sectoraidd ei natur.

### Argymhelliad 2 y Pwyllgor

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'n ganolog ddata wedi'u dadgyfuno sy'n dangos y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yn ôl grwpiau demograffig.*

Mae'r Panel yn cydnabod yr angen i gasglu data ar ddefnyddwyr a'r rhai nad ydynt yn defnyddio llyfrgelloedd er mwyn goleuo'r ffordd y darperir gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'n ymwybodol bod rhai awdurdodau yn defnyddio data o'r fath i dargedu grwpiau penodol o fewn eu cymuned. Mae angen adnabod y dull mwyaf effeithlon o gasglu'r data hwn na fydd yn rhoi baich sylweddol ychwanegol ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Cynhelir nifer o arolygon cenedlaethol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar feysydd cysylltiedig a dylid ymchwilio i'r posibilrwydd o ychwanegu cwestiynau at arolygon sy'n bodoli eisoes.

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. (2014). *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru.* Ar gael yn http://tinyurl.com/q4mu9k5

### Argymhelliad 3 y Pwyllgor

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gydweithio â phartneriaid i ddatblygu diffiniad cyfoes o wasanaethau llyfrgelloedd "comprehensive and efficient" i awdurdodau lleol eu darparu o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964. Dylai'r cyfryw ddiffiniad gynnwys darparu mynediad i'r rhyngrwyd, a ddylai barhau i fod am ddim yn ein barn ni.*

Mae'r Panel wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r mater hwn ac wedi adnabod angen clir i ddiffinio beth a olygir wrth "gynhwysfawr ac effeithlon", sef yr hyn a bwysleisir yn yr ymatebion i'r cais am dystiolaeth (paragraff 128). Mae argymhelliad XI y Panel yn argymell rhoi statws canllawiau statudol i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

### Argymhelliad 4 y Pwyllgor

*Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried datblygu cynllun achredu gwirfoddol ar gyfer llyfrgelloedd unigol yng Nghymru.*

Byddai angen buddsoddi amser ac arian sylweddol i gyflwyno cynllun achredu, tebyg i'r rhai ar gyfer amgueddfeydd ac archifau, yn ychwanegol i'r Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru newydd yn amlinellu hawliau craidd mewn perthynas â llyfrgelloedd cyhoeddus y dylai dinasyddion Cymru eu disgwyl gan unrhyw lyfrgell a gwasanaeth llyfrgelloedd. Mae'r Panel yn credu bod ei Argymhellion VIII a IX, a pharhau i weithredu'r Safonau, yn delio â mater sicrhau ansawdd.

### Argymhelliad 5 y Pwyllgor

*Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i weithio gydag awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a hyrwyddo rhagor o gyfleoedd i gydweithio a chydleoli wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd.*

Un o argymhellion allweddol y Panel yw cynyddu lefel y cydweithio er mwyn datblygu model mwy cynaliadwy o gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru ac felly mae'r Panel yn cefnogi Argymhelliad y Pwyllgor. Mae argymhellion VII a X y Panel yn tynnu sylw at y pwyslais y mae'r Panel yn ei roi ar yr angen i ddatblygu mwy o gydweithio ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

### Argymhelliad 6 y Pwyllgor

*Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y cymorth parhaus a'r canllawiau angenrheidiol ar gael er mwyn gwella cynaliadwyedd hirdymor llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau.*

Mae'r Panel wedi nodi'r angen i ddatblygu canllawiau ar gyfer llyfrgelloedd a reolir ac a gefnogir gan y gymuned yn ei Argymhelliad IX. Bydd Argymhelliad IV y Panel, os caiff ei roi ar waith, hefyd yn darparu tystiolaeth fuddiol i oleuo'r gwaith hwn.

### Argymhelliad 7 y Pwyllgor

*Argymhellwn y dylai'r Gweinidog sicrhau bod cymorth a chanllawiau digonol yn parhau i fod ar gael er mwyn i awdurdodau lleol nodi a mynd ar drywydd yr holl gyfleoedd ariannu sydd ar gael.*

Mae'r Panel yn cefnogi'r argymhelliad hwn ac yn nodi gwaith parhaus Llywodraeth Cymru, trwy gynlluniau grant CyMAL, er mwyn darparu cyllid ar gyfer datblygu prosiectau arloesol a chydweithredol. Mae CyMAL hefyd yn rhoi cyngor ar ffynonellau cyllid ac yn darparu cyrsiau ar godi arian fel rhan o'i rhaglen datblygu gweithlu.

### Argymhelliad 8 y Pwyllgor

*Argymhellwn, er y dylai gwasanaethau craidd llyfrgelloedd barhau i fod am ddim, y dylai'r Gweinidog ystyried ar y cyd ag awdurdodau lleol yr holl opsiynau eraill sydd ar gael er mwyn i lyfrgelloedd godi refeniw.*

Mae'r Panel wedi ystyried yr heriau y mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn eu hwynebu wrth geisio cynyddu incwm o wahanol ffynonellau ym mharagraffau 45-49. Daeth i'r casgliad:

*"Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i'r Panel yn dangos bod y cyfleoedd i gynhyrchu incwm sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar y sefyllfa bresennol o ran cyllid."*

Tynnodd y dystiolaeth sylw hefyd at effeithiau/ costau ychwanegol a allai ddod i ran gwasanaethau eraill a ariennir yn gyhoeddus o ganlyniad, er enghraifft pe codid tâl am fynediad at y rhyngrwyd.

**Argymhelliad 9 y Pwyllgor**
*Argymhellwn y dylai'r Gweinidog weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid i hyrwyddo'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus yn well.*

Mae'r Panel yn cefnogi'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus. Mae'n cefnogi'r parhad mewn gwariant a'r pwyslais ar ddatblygu cynulleidfa sy'n rhan o strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli gyda'i gymysgedd o ymgyrchoedd cenedlaethol, gwyliau a hyfforddiant staff.

**Argymhelliad 10 y Pwyllgor**
*Argymhellwn y dylai'r Gweinidog barhau i fynd ar drywydd yr achos dros gael arian ychwanegol gan Lywodraeth y DU er mwyn cydnabod y cyfrifoldebau cynyddol sydd gan staff llyfrgelloedd yng Nghymru i gefnogi'r broses o gyflwyno diwygiadau lles digidol yn bennaf.*

37. Mae'r Panel yn cefnogi'n llwyr ddarparu mynediad di-dâl at TGCh ac yn cymeradwyo'r swyddogaethau allweddol y mae llyfrgelloedd cyhoeddus a'u staff yn eu cyflawni wrth hyrwyddo cynhwysiant digidol a helpu pobl i gael mynediad at y nifer cynyddol o wasanaethau cyhoeddus a gyflenwir ar-lein yn bennaf, fel Credyd Cynhwysol a Pharu Swyddi Ar-lein. Mae'n bwysig bod y swyddogaeth hon yn cael cydnabyddiaeth wrth i'r Adran Gwaith a Phensiynau ddosbarthu arian i gefnogi cyflwyno Credyd Cynhwysol fesul cam.



# 3. Newidiadau i Ddarpariaeth Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn 2014-2015

## Trosolwg Ariannol

38. Ym mis Hydref 2013 daeth yn amlwg y byddai pwysau sylweddol ar gyllid awdurdodau lleol o 2014-15 ymlaen oherwydd y cyfyngiadau ar gyllid cyhoeddus yn y DU yn gyffredinol. Mewn Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Hydref 2013, dywedodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth:

*'Er gwaethaf y gostyngiadau i grant bloc Cymru ers adolygiad o wariant 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gynnal ei chymorth ariannol i Awdurdodau Lleol Cymru mewn termau arian parod yn ystod y tair blynedd diwethaf. Cafodd hyn ei amddiffyn fel y gallai Llywodraeth Leol baratoi ar gyfer trawsnewid y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau, a buddsoddi yn hynny, gan fod cyfnod anodd yn ei disgwyl'.*[12]

39. O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, roedd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn 2014-15 yn llai o 3.5% o gyfartaledd, gan amrywio o -1.2% i -4.6%. Oherwydd diogelu'r arian ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, cafodd y lleihad yng nghyllid yr awdurdodau lleol effaith fwy ar y gwasanaethau eraill. Yn ogystal â'r lleihad mewn cyllid, mae effaith chwyddiant hefyd yn fater o bwys.

40. Ym mis Mehefin 2014, ysgrifennodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth ar y pryd, i'r awdurdodau lleol yn dweud wrthynt am baratoi at leihad pellach mewn cyllid ar gyfer llywodraeth leol rhwng 1.5% a 4.5% yn 2015-16. Mae arwyddion cynnar fod rhai gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael cais i adolygu'u gwasanaethau o ganlyniad i'r lleihad pellach yma.

41. Mae gwybodaeth a ddarparwyd i'r Panel gan awdurdodau lleol yn dangos bod gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael eu cyfarwyddo i leihau eu gwariant o rhwng 0.7% (£20,000) a 19.9% (£1m) yn ystod 2014-15. Fodd bynnag nid yw hyn yn adlewyrchu'r darlun cyfan.

42. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod tri dull o weithredu i'w gweld, sef:

- y rhai sy'n blaenoriaethu'r lleihad mewn cyllid ar gyfer llyfrgelloedd ar ddechrau'r broses ac felly yn dangos mwy o leihad canrannol yn 2014-15;
- y rhai sy'n oedi tan y drydedd flwyddyn (2016-17) cyn cyflwyno eu prif leihad mewn cyllid ac felly yn dangos lleihad canrannol isel yn 2014-15;
- y rhai sy'n rhannu'r arbedion dros y cyfnod o dair blynedd.

43. Nid oes patrwm clir wedi dod i'r amlwg o ran y lleihad canrannol yn nhermau'r rhanbarthau neu faint yr awdurdod ac mae'r lleihad yn adlewyrchu penderfyniadau lleol a wnaed gan awdurdodau unigol.

44. Nid oes fawr ddim tystiolaeth neu ddim o gwbl, yn y broses o wneud penderfyniadau, fod awdurdodau wedi gwneud asesiad o effeithiau/costau a allai syrthio ar wasanaethau eraill a ariennir yn gyhoeddus, er enghraifft dysgu ac addysg, ee llythrennedd a llythrennedd digidol, mynediad at wybodaeth cyflogaeth a lles cymdeithasol.

## Cynhyrchu Incwm

45. Yng Nghymru mae traddodiad cryf o ddarparu'r rhan helaeth o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn ddi-dâl er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r agendâu trechu tlodi a chynhwysiant cymdeithasol. Datgelodd y broses ymgynghori fod nifer o awdurdodau lleol yn ymchwilio i gyfleoedd i gynhyrchu incwm i wneud iawn am rywfaint o'r diffyg cyllid. Rhai o'r meysydd dan sylw oedd codi am ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd ac am archebu eitemau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd eraill yng Nghymru. Mae'r ddau

12 Llywodraeth Cymru. (2013). *Datganiad Ysgrifenedig – Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2014-2015.* Ar gael yn http://tinyurl.com/mbdzepb

opsiwn hyn yn groes i'r cytundeb ar hawliau defnyddwyr i wasanaethau yn ddi-dâl a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru, CLlLC a gwasanaethau llyfrgell.

46. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael i'r Panel yn dangos bod y cyfleoedd i gynhyrchu incwm sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar y sefyllfa bresennol o ran cyllid. Yn wir, mae'r dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn gostus cyflwyno a gweinyddu mentrau bach i godi arian fel codi tâl am ddefnyddio TGCh. Hefyd, mae gweithredoedd o'r fath yn wrthgynhyrchiol (yn enwedig mewn perthynas ag aelodau'r cyhoedd sydd dan anfantais) o safbwynt y flaenoriaeth gorfforaethol a chenedlaethol, sy'n dod yn fwyfwy pwysig, i sicrhau cynhwysiant digidol pan fo angen mynediad at y rhyngrwyd a sgiliau digidol er mwyn cael budd-daliadau lles ac i helpu pobl i gael gwaith.

47. Mewn gwledydd eraill fel Gweriniaeth Iwerddon, mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn mynd ati i geisio rhoddion, ee mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Swydd Galway[13] yn gweinyddu cynllun Gwaddol Llyfrau gydag isafswm cyfraniad o 1,250 Euro.

48. Hyd yn hyn, ychydig iawn o grwpiau 'Cyfeillion y Llyfrgell' sydd wedi cael eu sefydlu yng Nghymru ac mewn trafodaeth â Grŵp Cefnogi Llyfrgell Rhydyfelin nodwyd angen i rannu arferion gorau â Grwpiau Cyfeillion mewn sectorau eraill fel amgueddfeydd. Un rôl bosibl i Grŵp Cyfeillion fyddai helpu i gynhyrchu incwm. Byddai'n fuddiol petai CyMAL yn trefnu digwyddiad ar draws y sectorau i ddod â 'Chyfeillion' amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ynghyd yn hydref 2014.

49. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i bennu trwy reoliadau y taliadau y gall awdurdod llyfrgell eu codi mewn perthynas â darparu gwasanaethau llyfrgell fel y'u hamlinellir yn adran 8(2) o Ddeddf 1964. Y rheoliadau perthnasol yng Nghymru yw *Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell (Cymru a Lloegr) 1991/2712*[14].

## Effaith Lleihau'r Cyllid ar Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus

50. Mae tystiolaeth ar gael yn barod o effaith sylweddol lleihau'r cyllid ar wasanaethau a defnyddwyr yn yr awdurdodau lleol sydd wedi blaenoriaethu'r lleihad dwys mewn cyllid yn 2014-15. Mae'r toriadau yn effeithio ar ystod eang o feysydd gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gan gynnwys:

- Cau llyfrgelloedd cangen
  - Yr effaith fwyaf oedd cynnig cychwynnol i gau 14 o'r rhwydwaith o 26 o lyfrgelloedd cangen yn Rhondda Cynon Taf (Fodd bynnag mae Llyfrgell Rhydyfelin wedi ailagor ers hynny a chaiff 2 o fannau gwasanaeth llyfrgelloedd eraill eu rhedeg gan wirfoddolwyr).
- Cyflwyno llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gyda lefelau gwahanol o gyfranogiad gan wirfoddolwyr (gweler paragraffau 162-174 am fanylion pellach)
  - Mae Castell-nedd Port Talbot yn trosglwyddo 9 o'u 17 o lyfrgelloedd cangen i lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned;
- Lleihau oriau agor gan gynnwys:
  - Cau'r llyfrgell am ddiwrnod ychwanegol
  - Llai o oriau agor ar ddydd Sadwrn
  - Llai o oriau agor gyda'r hwyr;
- Lleihau lefelau staffio llyfrgelloedd
  - Ailstrwythuro
  - Dileu haen/gradd
  - Lleihau nifer y swyddi proffesiynol
  - Lleihau nifer y cynorthwywyr llyfrgell;
- Lleihau'r cyllid i brynu adnoddau
  - Lleihau'r gronfa lyfrau;

13 Galway County Council. *Gifts and Donations Galway Public Library Service.* Ar gael yn http://www.galway.ie/en/Services/Library/GiftsDonations/ (Gwelwyd 14 Gorffennaf 2014)

14 Llyfyrfa ei Mawrhydi. *Rheoliadau Ffioedd Llyfrgelloedd (Cymru a Lloegr) 1991/2712.* Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/uksi/1991/2712/made

- Lleihau darpariaeth llyfrgelloedd teithiol
  - Y llyfrgell yn galw'n llai aml, ee cynnydd o gylch 3 wythnos i 4 wythnos
  - Dileu gwasanaethau llyfrgell teithiol, ond parhau gyda gwasanaethau i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref;
- Lleihau gwasanaethau llyfrgell ysgolion
  - Lleihau'r gwasanaethau
  - Ailstrwythuro'r gwasanaethau
  - Dileu gwasanaethau.

51. Bydd y newidiadau a amlinellir uchod yn effeithio'n sylweddol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ac, o ganlyniad, fe effeithir ar y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus. Yng Nghymru, mae'r toriadau a wnaed cyn 2014 yn cyfrannu at leihad yn y cynnydd yn niferoedd yr ymwelwyr ac yn cael eu hadlewyrchu yn y gwariant refeniw ar lyfrgelloedd cyhoeddus a amlinellwyd yn ffigurau a a b ar dudalennau 14 a 15. Mae'n rhesymol casglu bod gwario llai ar y ddarpariaeth yn gwneud yr hyn a gynigir i'r cyhoedd yn llai deniadol, ee mae tystiolaeth o leihad sylweddol yn nifer yr eitemau a fenthycwyd yn sgil gwario llai ar y stoc llyfrau.

52. Ym marn y Panel, bydd yn bwysig sicrhau bod y dystiolaeth ynghylch effaith y newidiadau a wneir, a'r gwersi a ddysgir, mewn awdurdodau fel Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent yn cael ei chofnodi er mwyn goleuo penderfyniadau awdurdodau lleol eraill yn y dyfodol (gweler Argymhelliad V).

53. Fodd bynnag, mae effaith y lleihad mewn gwariant sy'n ofynnol o 2014-15 ymlaen yn debygol o arwain at sefyllfa debyg i'r un yn Lloegr lle gwelwyd lleihad sylweddol yn y cyllid yn arwain at lai o lyfrgelloedd, ymweliadau, eitemau'n cael eu benthyg a staff ers 2011-12. Mae nifer y gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd wedi cynyddu ac mae mwy o lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi dod i fodolaeth.

54. Mae data a gasglwyd gan CIPFA yn dangos bod nifer y gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedi cynyddu ers i'r data gael eu casglu gyntaf yn 2006-07. Er bod cyfradd ganrannol y cynnydd yng Nghymru yn fwy o lawer nag un Lloegr, fe ddechreuodd o sail isel iawn sef 21 o wirfoddolwyr, gan gynyddu i 93 yn 2012-13. Yn Lloegr, roedd 11,802 o wirfoddolwyr yn 2006-07, gan gynyddu i 32,029 yn 2012-13.

## Awdurdodau Lleol yn Ymgynghori ar y Newidiadau Arfaethedig

55. Mae Adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009[15] yn gosod dyletswydd i ymgynghori ar awdurdodau lleol Cymru. Dan adran 5, mae'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal ymgynghoriad er mwyn penderfynu sut i gyflawni'r ddyletswydd o sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ei swyddogaethau (adran 2 (1)) a'r ddyletswydd i bennu amcanion gwella (adran 3 (1)).

56. Yn ei lythyr i awdurdodau lleol ym mis Rhagfyr 2013, pwysleisiodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd, yr angen i ymgynghori mewn perthynas â chynigion i adolygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae pob gwasanaeth llyfrgell sydd wedi cynnig newidiadau sylweddol wedi gwneud rhyw ffurf ar ymgynghori, er bod hyn wedi amrywio'n sylweddol o'r naill awdurdod lleol i'r llall sef:

- Ymgynghori ar amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus, gan amlinellu cynigion penodol, ee cau llyfrgelloedd a enwyd.
- Ymgynghori ar amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus, cyn cyhoeddi cynigion penodol.
- Ymgynghori'n benodol ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus gan amlinellu cynigion penodol;

15 Y Llyfrfa Cyfyngedig. (2009) *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.* Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/2/contents


Ar Frys
Self-service

- Ymgynghori'n benodol ar lyfrgelloedd cyhoeddus fel rhan o adolygiad o wasanaethau llyfrgell cyn datblygu cynigion penodol gan gynnwys:
  - Ymchwil gan gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o adeiladau cyhoeddus
  - Paneli Dinasyddion
  - Cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus a gwahoddiadau i gyflwyno sylwadau.

57. Defnyddiodd rhai awdurdodau lleol gyfuniad o'r dulliau uchod. Roedd ffurf yr ymgynghori yn amrywio gan gynnwys grwpiau ffocws o ddinasyddion ac ymarfer ymgynghori cyffredinol â'r cyhoedd. Roedd cyfnod yr ymgynghori hefyd yn amrywio a'r cyfnod mwyaf cyffredin oedd mis.

58. Wrth baratoi eu cynigion i newid y ddarpariaeth o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, mae enghreifftiau lle'r oedd yr awdurdod lleol yn cynnal adolygiad o wasanaethau llyfrgelloedd a gwasanaethau eraill trwy gynnal cyfres o grwpiau ffocws o ddinasyddion cyn cyhoeddi eu cynigion ar gyfer ymgynghoriad ehangach a pharhau, ee Cyngor Dinas Caerdydd. Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy broses gynhwysfawr o ymchwil ac ymgynghori yn 2011[16] fel rhan o'u hadolygiad o wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

59. Pwysleisiwyd pwysigrwydd proses ymgynghori addas fel rhan o *A Local Inquiry into the Public Library Service Provided by Wirral Metropolitan Borough Council led by Sue Charteris*[17]. Nododd yr adroddiad terfynol:

*"I believe there is a strong case for reviewing the decision and/or retaining a physical service (not necessarily as it is now) at some sites earmarked for closure."*

60. Un o'r rhesymau dros y penderfyniad hwn oedd:

*"where the Council's decision on which libraries to close changed: due to the lack of consultation with residents when the decision to close Bromborough Library was substituted for Eastham, and Upton Library for Woodchurch, meaning that the Council did not consider the needs of those communities affected by the changes."*

61. Mae sicrhau ymgynghoriad cadarn yn hanfodol er mwyn ystyried barn y cyhoedd. Mae hefyd yn bwysig er mwyn osgoi rhai o'r adolygiadau barnwrol costus sydd wedi'u dwyn yn erbyn yr awdurdod lleol gan grwpiau cymunedol. Mae'n hanfodol ceisio cyngor cyfreithiol wrth baratoi'r broses ymgynghori er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Mae hyn yn enwedig yn berthnasol i'r awdurdodau lleol hynny sy'n adolygu eu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ar hyn o bryd i ddelio â lleihad yn eu cyllid o 2015-16 ymlaen. Daeth y Panel Adolygu i'r casgliad bod ymgynghori yng Nghymru yn amrywiol o ran ansawdd, hyd ac amcanion. Dyma fater sy'n haeddu canllawiau pellach.

62. Trefnwyd adolygiad barnwrol mewn perthynas â'r broses ymgynghori a wnaed ynghylch y cynigion i gau Llyfrgell Rhydyfelin. Tynnodd Cyngor Rhondda Cynon Taf eu cynigion i gau'r llyfrgell yn ôl cyn i wrandawiad yr adolygiad barnwrol ddigwydd a chytunwyd i ailagor y llyfrgell a thrafod ei dyfodol â grŵp cefnogi'r llyfrgell.

63. Ers nifer o flynyddoedd mae CLlLC yn helpu'r awdurdodau lleol gyda thechnegau i ymgysylltu â dinasyddion ac ymgynghori yn unol â'r gyfraith. Darparwyd y gefnogaeth hon trwy raglenni hyfforddiant achrededig, digwyddiadau cyd-ddysgu cenedlaethol ar gyfer ymarferwyr ymgysylltu Byrddau Gwasanaethau Lleol ac ystod o becynnau cymorth ac ymchwil sydd ar gael ar-lein ac sy'n cynnwys: Egwyddorion Cenedlaethol

[16] Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. (2011). *Moderneiddio Llyfrgelloedd.* Ar gael yn http://www.conwy.gov.uk/section.asp?catid=8955

[17] Yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. (2009). *A Local Inquiry into the Public Library Service Provided by Wirral Metropolitan Borough Council Led by Sue Charteris.* Ar gael yn http://tinyurl.com/ogzr3qw

ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd[18], Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu a'r Cyhoedd[19]; [20], a dogfennau newydd sydd ar y gweill. Hefyd mae CLlLC wedi cyflwyno rhaglen hyfforddiant ar sail peilot, ar sut i ymgysylltu â chymunedau ynghylch toriadau i'r gyllideb ac ymgysylltu â chymunedau'n barhaus. Yn dilyn gwerthusiad llwyddiannus, mae CLlLC yn bwriadu rhoi'r cwrs hwn ar waith fesul cam i awdurdodau lleol sydd â diddordeb. Mae'r rhaglen yn rhoi trosolwg ar dechnegau ymgysylltu, gan gynnwys y Gyfraith ar Ymgynghori ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## Argymhelliad:

I. Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol gydweithio â rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu canllawiau arferion da a fydd yn helpu awdurdodau lleol a'u gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i ymgynghori ar wasanaethau. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a hyrwyddo defnydd effeithiol o'r cyfoeth o adnoddau ar-lein sydd ar gael, gan gynnwys yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Llawlyfr Ymarferwyr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Pecyn Cymorth Gwerthuso.

## Yr Effaith ar Ddefnyddwyr a Chymunedau (gan gynnwys Asesiadau o Effaith)

### Gohebiaeth a dderbyniwyd

64. Un o amcanion pwysig yr adolygiad yw ystyried effaith y newidiadau arfaethedig ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Anfonodd y cyhoedd tua 76 o eitemau o ohebiaeth at y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd, neu'n uniongyrchol at CyMAL gan bwysleisio effaith y newidiadau arfaethedig ar y cyhoedd a chymunedau.

Yn gryno, mae'r llythyrau hyn wedi pwysleisio pwysigrwydd llyfrgelloedd cyhoeddus lleol a'u cyfraniad at:

- Wella llythrennedd, yn enwedig i blant.
- Cyflawni cynhwysiant digidol, gan gynnwys mynediad di-dâl a chymorth i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd i'r rhai na all fforddio mynd ar-lein gartref.
- Cefnogi dysgu gydol oes.
- Darparu lleoliad diogel yn y gymuned ar gyfer amrywiol weithgareddau a chyfarfodydd;
- Soniwyd hefyd am yr anhawster, oherwydd diffyg cludiant personol, i gyrraedd llyfrgelloedd eraill.

65. Pwysleisiwyd y gwerth uchel a roddir gan ddefnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus ar y gefnogaeth a'r cymorth a ddarperir gan staff y llyfrgell a nodwyd effaith colli staff cyflogedig mewn rhai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned.

66. Gofynnodd nifer o'r llythyrau i Lywodraeth Cymru ymyrryd i ohirio gweithredu penderfyniadau i gau llyfrgelloedd er mwyn rhoi mwy o amser ar gyfer trafodaethau â grwpiau cymunedol am ddyfodol rhai llyfrgelloedd. Gan amlaf, ymatebodd yr awdurdodau lleol i'r ceisiadau hyn ac estyn y cyfnod ymgynghori cyn cau unrhyw lyfrgell.

67. O'r 76 o eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn, mae 54 yn ymwneud â dau awdurdod – mae 37 yn ymwneud yn bennaf â Llyfrgelloedd Rhydyfelin, Maerdy a Beddau yn Rhondda Cynon Taf ac mae 17 yn ymwneud â Llyfrgell Pennard yn Abertawe. Roedd y gweddill yn cynnwys 15 o eitemau ynghylch 6 awdurdod lleol arall, a 5 gan Aelodau o'r Cynulliad, Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru a Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru.

18 Cyfranogion Cymru. *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.* Ar gael yn http://tinyurl.com/katmvfb (Gwelwyd 1Awst 2014).

19 Cyfranogion Cymru. *Practitioners' Manual for Public Engagement.* Ar gael yn http://tinyurl.com/oeqgvyq (Gwelwyd 1 Awst 2014).

20 Cyfranogion Cymru. *Pecyn Cymorth Gwerthuso.* Ar gael yn http://tinyurl.com/n6amfux (Gwelwyd 1 Awst 2014).

## Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

68. Wrth gynnig newidiadau i'w gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel y'i nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r canllawiau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn nodi:

*Mae gan eich awdurdod ddyletswyddau cyfreithiol ynghylch dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda ar sail nodweddion gwarchodedig megis, rhywedd, hil, anabledd neu oed. Nid yw'r dyletswyddau hyn yn eich atal rhag lleihau gwasanaethau pan fo rhaid, ond maen nhw'n cynnig ffordd o ddatblygu cynigion sy'n ystyried anghenion pawb yn eich cymuned.*[21]

69. Fel rhan o'r ddyletswydd hon mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

70. Cafwyd achos llys yn dilyn methiant awdurdodau i ddangos eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, sef (R. Green ac eraill) v Cyngor Sir Caerloyw a Chyngor Sir Gwlad yr Haf [2011] EWHC 2687 (Admin). Nododd y Barnwr McKenna:

*These are of course all relevant considerations in the exercise of my discretion, but I have no doubt that they are significantly outweighed by a number of other factors, not least of which is the fact that the decisions under challenge failed to give effect to the public sector equality duties and were not merely unlawful decisions but were, in substance, as Ms Mountfield submits, amounted to bad government. It is important to the rule of law to give due respect to these issues of equality. The breach of the equality duties is a substantive and not merely a technical or procedural defect.*[22]

71. Pwysleisiodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd, yr angen i gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn ei lythyr at awdurdodau lleol ym mis Rhagfyr 2013. Mae CLILC i'w chanmol am gyflwyno hyfforddiant ar gyfer awdurdodau lleol ar gynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.

72. Fe wnaeth yr awdurdodau lleol, sy'n gwneud newidiadau sylweddol i'w darpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, i gyd gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb. Roedd enghreifftiau clir, er enghraifft Sir Benfro, lle'r oedd yr awdurdod lleol wedi diwygio cynigion i liniaru effaith y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth llyfrgelloedd ar wahanol grwpiau o bobl. Lle'r oedd cynigion i leihau neu ddileu'r gwasanaeth llyfrgelloedd symudol, cafodd y gwasanaeth i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref ei gryfhau er mwyn lliniaru'r effaith ar bobl na allent ymweld â chyfleusterau llyfrgell eraill. Hefyd mae rhai gwasanaethau y codir ffioedd amdanynt wedi aros yn ddi-dâl i bobl sydd ag anabledd. Mae nifer o awdurdodau lleol yn adolygu eu gwasanaeth llyfrgelloedd teithiol a bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr llyfrgelloedd mewn ardaloedd gwledig.

73. Fodd bynnag mewn rhai achosion, er i'r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb amlinellu'r effaith ar garfannau yn y gymuned (er enghraifft yr henoed, plant, y rhai heb fynediad at gyfrifiaduron a'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig) nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn nodi sut roedd yr Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi dylanwadu ar y penderfyniadau terfynol nac yn rhoi manylion llawn i ddweud beth a wnaed i liniaru'r effaith.

74. Nid oedd llawer o dystiolaeth o ddefnyddio adroddiadau ymchwil fel sail i'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, roedd canfyddiadau'r ymchwil a wnaed gan Child a Goulding yng nghanolbarth

[21] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (diweddariad diwethaf 2010). *Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.* Ar gael yn http://www.equalityhumanrights.com/wales/equality-impact-assessments/

[22] High Court of Justice. (2011). *The Queen on the Application of Green v Gloucestershire and the Queen on the Application of Rowe v Somerset County Council.* Ar gael yn http://foclibrary.files.wordpress.com/2011/12/1611kr01marked-2.pdf



Lloegr, sef *Public libraries in the recession: the librarians' axiom*[23] yn dangos:

*The principal finding is that more people used libraries during the recession, particularly for job-seeking activities, advice and training.*

75. Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y Carnegie UK Trust daflen, *Speaking Volumes*[24], a amlinellodd effaith llyfrgelloedd cyhoeddus a sut y maent yn cyfrannu tuag at bedwar prif faes polisi, sef polisi cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac addysg. I gyd-fynd â'r daflen, cyhoeddwyd cyfres o gronfeydd data sy'n cynnwys gwahanol enghreifftiau o gyfraniad llyfrgelloedd cyhoeddus i'r meysydd polisi hyn.

76. Yn ogystal â'r gwaith ar y broses ymgynghori, mae CLlLC wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu hyfforddiant ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i staff awdurdodau lleol, i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae CLlLC a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG wedi cwblhau ymchwil yn ddiweddar ac maent yn lansio Ffocws Ymarfer ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn cynnwys ystod eang o adnoddau i gynorthwyo staff awdurdodau lleol.

## Argymhelliad:

II. Dylai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio â rhanddeiliaid i barhau i ddatblygu arferion da i helpu awdurdodau lleol i wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant a hyrwyddo defnydd o'r Ffocws Ymarfer ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cael ei ddatblygu gan CLlLC a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG ar gyfer staff gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus.

## Cynllunio Strategol

77. Wrth adolygu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, edrychodd y Panel am enghreifftiau lle'r oedd y newidiadau arfaethedig wedi'u cysylltu ag agenda newid strategol y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Roedd ychydig o'r ymatebion yn dangos bod y newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried fel rhan o adolygu'r gwasanaethau llyfrgelloedd lleol. Roedd rhai o'r adolygiadau hyn ar y gweill cyn i'r setliad llywodraeth leol gael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2013 ac roedd eraill wedi dechrau'r broses o adnabod a thargedu toriadau cyllidol, o 2015-16 ymlaen yn bennaf.

78. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o'r ymatebion wedi elwa o gyflwyno tystiolaeth o blaid y newidiadau arfaethedig yng nghyd-destun cynllunio strategol ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus, blaenoriaethau'r awdurdod lleol a blaenoriaethau ehangach. Mae'r Panel hefyd yn credu, ar sail yr wybodaeth a roddwyd gan yr awdurdodau lleol, eu bod wedi ystyried rhy ychydig o opsiynau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau. Yn ogystal, mae tystiolaeth fod y ffordd y mae uwch staff y llyfrgelloedd yn cymryd rhan yn y broses o gymryd penderfyniadau a'r broses cynllunio yn amrywio o awdurdod i awdurdod.

79. Nodwyd enghreifftiau o arferion da sydd wedi ennill eu plwyf yng Nghaerffili, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Ddinbych, Wrecsam a Chaerdydd, lle mae polisi clir o ddatblygu cyfleusterau aml-ddefnydd/cydleoledig gyda'r nod o greu gwasanaeth mwy cynaliadwy neu arwain at well gwasanaethau. Ymhlith yr enghreifftiau o gydleoli gwasanaethau awdurdod lleol a gwasanaethau eraill â llyfrgelloedd y mae:

- Gwasanaethau gwybodaeth y Cyngor, gan gynnwys cyfuno'r gwasanaethau mewn dau achos

[23] Child, R. a Goulding A. (2012). Public libraries in the recession: the librarian's axiom. Ar gael yn *Library Review,* Cyfrol 61 Rhifyn: 8/9, tt.641 – 663

[24] Carnegie UK Trust. (2014). *Speaking Volumes.* Ar gael yn http://preview.tinyurl.com/n9qdrsc

- Gwasanaethau gwybodaeth i dwristiaid
- Gwasanaethau hamdden
- Gwasanaethau archifau
- Canolfannau cymunedol
- Canolfannau dysgu gydol oes.

80. Mae tystiolaeth a gafwyd trwy raglen ddatblygu Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru i foderneiddio mannau gwasanaeth yn dangos yn glir y gall cydleoli gynnig y posibilrwydd o wella proffil ac amlygrwydd y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynyddu'r defnydd o ran nifer yr ymwelwyr, y benthyciadau a'r gweithgareddau mewn llyfrgelloedd. Yn yr hinsawdd bresennol mae angen ystyried hefyd y potensial i gyfuno gwasanaethau. Nid oes un dull sy'n bendant yn well a dylid asesu pob prosiect cydleoli yn ôl yr anghenion lleol a'r synergedd posibl gyda phartneriaid priodol.

81. Mae nifer o wasanaethau hamdden yng Nghymru eisoes wedi cael eu trosglwyddo i ymddiriedolaethau neu i gwmnïaudielw. Fodd bynnag, yr unig wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cyfan i ddod yn rhan o ymddiriedolaeth yw Gwasanaeth Llyfrgelloedd Blaenau Gwent, a fydd yn ymuno â'r gwasanaethau hamdden a diwylliannol fel rhan o Ymddiriedolaeth Bywyd a Hamdden newydd Blaenau Gwent. Nododd awdurdodau lleol eraill eu bod yn ystyried yr opsiwn hwn, er enghraifft, Wrecsam a Merthyr Tudful. Mae'n ddiddorol nodi bod yr ymddiriedolaethau neu'r cwmnïau dielwhyn i gyd yn gweithredu o fewn ffiniau'r awdurdod lleol presennol, er bod nifer ohonynt yn ffinio â'i gilydd.

82. Er bod enghreifftiau o gaffael adnoddau a systemau ar y cyd sydd wedi'u sefydlu neu sydd ar y gweill, ni welwyd unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol o unrhyw fentrau strategol mawr newydd i ddatblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus trawsffiniol. Mae'r Panel yn credu bod methu hyrwyddo mentrau mawr cydweithredol rhwng awdurdodau yn wendid sylweddol yn ymateb yr awdurdodau lleol i'r hinsawdd economaidd bresennol ac y byddai dibynnu ar atebion tymor byr fel llyfrgelloedd a reolir gan wirfoddolwyr yn creu problemau sylweddol i'r dyfodol.

### Argymhelliad:

V. Dylai pob gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus ddatblygu strategaeth ar sail tystiolaeth a chanlyniadau, i ddechrau yn 2015-16, gan amlinellu sut y mae'r gwasanaethau llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a'i chyhoeddi ar wefan y gwasanaethau llyfrgell. Dylid defnyddio'r ddogfen hon fel arf cynllunio strategol a'i hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r arferion corfforaethol presennol. Dylid cefnogi'r strategaeth gwasanaeth llyfrgelloedd gyda chynllun darparu sy'n amlinellu sut y rhoddir y strategaeth ar waith, gan gynnwys asesiad cerdyn sgorio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Un enghraifft o arferion gorau yw cynllun datblygu pum mlynedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n seiliedig ar eu strategaeth 10 mlynedd.

## Llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned

83. Rydym wedi defnyddio'r term "llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned" yn yr adroddiad hwn yn bennaf oherwydd mai dyma'r term a fabwysiedir amlaf gan y sector llyfrgelloedd cyhoeddus a'r term a ddefnyddir gan CIPFA. Mae'n cyfeirio at gadw llyfrgelloedd unigol y bwriadwyd eu cau, trwy wahanol fathau o ymyrraeth gan y gymuned. Roedd datblygu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned eisoes wedi dechrau yng Nghonwy a Sir Gaerfyrddin cyn mis Hydref 2013. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddatblygiadau o'r fath a welir yng Nghymru o'i gymharu â nifer y llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned a sefydlwyd yn Lloegr ers 2011, o ganlyniadau i dorri cyllidebau.

84. Ym mis Hydref 2013, cynhaliodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot ymgynghoriad ar y posibilrwydd o gau naw llyfrgell,

oni ellid datblygu llyfrgelloedd amgen a reolir gan y gymuned. Oherwydd ymateb cryf gan y cymunedau yr effeithir arnynt, mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot wedi cydweithio'n glòs â grwpiau cymunedol i ddatblygu'r model o lyfrgelloedd amgen a reolir gan y gymuned ymhob un o'r 9 llyfrgell oedd dan fygythiad o gael eu cau. Ers cadarnhau cau'r llyfrgelloedd yn Rhondda Cynon Taf, fe gyflwynodd rhyw bump o grwpiau cymunedol achosion busnes i gynnal llyfrgell a weithredir gan wirfoddolwyr yn eu cymuned. Ar 24 Mehefin, cyhoeddodd Cyngor Rhondda Cynon Taf fod dau grŵp cymunedol wedi bod yn llwyddiannus gyda'u ceisiadau i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ym Maerdy, a Beddau a Thynant.

85. Gellir crynhoi'r gwahanol fodelau o lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yng Nghymru yn fras fel a ganlyn:

- Y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol yn darparu/cyd-drefnu rhai elfennau o adnoddau a staff, gyda'r adeilad ym mherchnogaeth y gymuned. Y cyngor cymuned yn cyfrannu at gostau'r staff â'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyflogi'r staff (Sir Gaerfyrddin).
- Y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol yn darparu cyfran o adnoddau a staff rheolaidd (oriau penodedig), yr adeilad ym mherchnogaeth y gymuned a chymorth gan wirfoddolwyr. Hyd yn hyn nid yw'r model hwn wedi cael ei weithredu'n llawn (Conwy).
- Adnoddau a rhywfaint o gymorth staff uwch o ran goruchwyliaeth ac arweiniad, gyda'r adeilad ym mherchnogaeth y gymuned ac yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn bennaf (Castell-nedd Port Talbot).
- Yr adeilad a'r adnoddau yn cael eu trosglwyddo i'r gymuned ac yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn unig heb gymorth parhaus gan y gwasanaeth llyfrgelloedd lleol i redeg y cyfleuster (Rhondda Cynon Taf).

86. Mae amrywiadau i bob un o'r modelau hyn ac mae'r sefyllfa'n newid drwy'r amser. Ni roddwyd tystiolaeth sylweddol ac argyhoeddiadol i'r Panel o ran cynaliadwyedd unrhyw un o'r modelau hyn ac mae angen monitro eu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant. Mae grwpiau cymunedol sydd wedi gwrthwynebu cau llyfrgelloedd cyhoeddus wedi nodi mai eu dewis bob amser fyddai llyfrgell sy'n cael ei hariannu a'i staffio gan yr awdurdod a dim ond pan fo popeth arall wedi methu y byddent o blaid llyfrgell a reolir gan wirfoddolwyr.

87. Sylweddolir, fodd bynnag, heb gymorth amhrisiadwy'r gwirfoddolwyr, ei bod yn bosibl y gallai Cymru wynebu cau hyd yn oed mwy o lyfrgelloedd cyhoeddus. Er enghraifft, buasai 9 llyfrgell gyhoeddus yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cau heb gymorth y gwirfoddolwyr. Serch hynny, mewn sawl achos fe welwyd lleihad sylweddol yn oriau agor llyfrgelloedd cyhoeddus yn dilyn sefydlu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, o'u cymharu â darpariaeth flaenorol yr awdurdod lleol. Mae'r Panel yn pryderu oherwydd na fyddai buddsoddi yn y stoc a'r cyfleusterau mewn llyfrgell sy'n agored am gyn lleied o oriau yn cynnig gwerth da am arian, beth bynnag yw ffynhonnell y cyllid a'r gefnogaeth. Unwaith bod llyfrgell gyhoeddus yn cau, mae profiad y gorffennol yn dangos ei bod yn annhebygol iawn o ailagor. Yn y deng mlynedd diwethaf, nid oes ond dwy enghraifft sy'n hysbys o lyfrgell gyhoeddus sydd wedi cau (ac eithrio cau dros dro) yn ailagor.

88. Un o'r modelau ar gyfer cynnwys y gymuned sy'n haeddu ymchwil bellach yw'r model o bartneriaeth rhwng gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yr awdurdod lleol a grŵp cymunedol. Mae'n golygu ymrwymiad gan y gwasanaeth llyfrgelloedd i ddarparu cefnogaeth barhaus o ran adnoddau, er enghraifft llyfrau, TGCh ac amser staff a fyddai, ynghyd ag ymrwymiad cyfatebol gan bartner cymunedol, yn darparu model mwy cynaliadwy ar gyfer llyfrgell a reolir gan y gymuned.

89. Rhoddir ystyriaeth bellach i lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned a'u goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol ym mharagraffau 162-174.

## Amserlenni Heriol

90. Fel y nodwyd ym mharagraff 77, roedd rhai gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus eisoes yn destun adolygiad ac yn datblygu polisïau yng nghyd-destun y pwysau cyllidol oedd ar y gorwel. Fodd bynnag, mae'n glir o'r dystiolaeth a ddarparwyd nad oedd gan y gwasanaethau llyfrgell oedd yn wynebu lleihad sylweddol yn eu cyllid yn 2014-15 fawr o amser i wneud ymchwil a chynllunio'n fanwl i ddatblygu modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau neu gynllunio newid. Mae'r amserlenni tynn yn sicr wedi cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng gwasanaethau awdurdodau lleol, awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn datblygu atebion. Mae cydweithio'n cymryd amser ac mae costau sefydlu fel rheol.

91. Mae awdurdodau lleol wedi cael eu cyfyngu i ganfod 'atebion cyflym' o ran cwrdd â thargedau ariannol ond gall y rhain gael effeithiau andwyol. Er enghraifft, mae defnyddio ymddeoliadau cynnar a diswyddo gwirfoddol i gwrdd â thargedau ariannol yn creu bylchau heb eu cynllunio o ran sgiliau yn y gweithlu. Mae hefyd angen adolygu effaith a chostau tymor hwy yr 'atebion cyflym' ac adnabod gweithredoedd i'r dyfodol i liniaru'r effeithiau.

## Argymhelliad:

III. Ni ddylid gweithredu newidiadau i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cyn cynhyrchu dewisiadau wedi'u costio a dylid eu gwerthuso yn ôl:

a) datblygu amserlenni priodol

b) yr asesiadau o effaith y mae angen eu cwblhau

c) y cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau cyfagos neu bartneriaid darparu eraill.

Dylid gweithredu'r argymhelliad hwn ar unwaith.

## Effaith y Newidiadau Arfaethedig ar Berfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru

92. Gwnaethpwyd ymchwil gan yr Athro Hywel Roberts ar sail Adroddiadau Blynyddol 2013-14 a gyflwynwyd gan awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ym mis Gorffennaf 2014, mewn perthynas â blwyddyn olaf y Pedwerydd Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (2011-14). Cyflwynodd y rhan fwyaf o awdurdodau set gyflawn o ddata ar gyfer eu perfformiadau dan y Safonau ond ni allai pob un gyflwyno data ynghylch Dangosyddion Perfformiad y Fframwaith yn ddigon buan iddo allu gwneud dadansoddiad llawn. Dyma brif sylwadau'r Athro Roberts yn dilyn ei waith ar sail y data oedd ar gael ym mis Gorffennaf 2014.

93. Dangosai'r Adroddiadau Blynyddol mai ychydig iawn o awdurdodau oedd wedi gwneud unrhyw weithgareddau manwl neu benodol o ran rhag-gynllunio gan ragweld y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013. Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi parhau gyda'r broses o leihau eu gwariant yn raddol ar ddarparu llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod 2013-14. Yn gronnus, mae'r toriadau hynny wedi cael effaith gynyddol ar y ddarpariaeth ac ar y seilwaith ers 2011, gyda rhan fwyaf o agweddau ar y gwasanaeth yn cael eu lleihau neu eu dileu gan nifer o awdurdodau.

94. Pan gyhoeddwyd y setliad ariannol ar gyfer awdurdodau lleol ym mis Hydref 2013, sbardunwyd y rhan fwyaf i gynnal adolygiadau sylweddol o'u darpariaeth llyfrgell ar unwaith, sef proses sy'n parhau o hyd yn y rhan fwyaf o awdurdodau ac sy'n cael ei reoli'n bennaf gan yr angen i wneud toriadau penodol i'w gwariant. Proses gynllunio ydyw yn bennaf i wynebu'r wasgfa ariannol ond mae'n cynnwys rhai prosesau ymgynghori yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y broses ymgynghori bob tro yn cyflwyno toriadau anorfod (a ddiffinnir gan yr awdurdod) mewn gwariant a darpariaeth,

heb gynnig llawer iawn o opsiynau amgen heblaw cau mannau gwasanaeth, dileu gwasanaethau symudol, gwario llai ar lyfrau a llawer llai ar staffio.

95. Er y bydd y toriadau gwariant a nodwyd neu a ragwelir ar gyfer 2014-15 a'r blynyddoedd wedyn, ar ben y lleihad graddol sydd wedi digwydd eisoes ers 2011 o leiaf, dros gyfnod y Pedwerydd Fframwaith Safonau mae'n ymddangos nad yw'r rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi gwneud toriadau anghymesur i wasanaethau llyfrgell ond eu bod wedi mabwysiadu dehongliad mwy hyblyg a heriol o'u cyfrifoldebau statudol – ac y byddant yn parhau i fabwysiadu dehongliad o'r fath. Dyma'r agwedd a allai gael yr effaith fwyaf ar wariant ar wasanaethau llyfrgell yn y blynyddoedd i ddod.

96. Mae gwariant ar wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ar gyfartaledd yng Nghymru fel canran o gyfanswm gwariant refeniw awdurdodau wedi cwympo'n raddol o 0.91% yn 2011-12 i 0.85% yn 2013-14, ond mae gwariant net cyfartalog gan awdurdodau llyfrgell ar wasanaethau llyfrgell wedi cynyddu ychydig o £16,001 am bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2011-12 i £16,344 yn 2013-14. Mae'n bosibl i amgylchiadau dros dro neu rai anarferol effeithio ar gyfrifiadau bras ar sail y 22 o awdurdodau yng Nghymru wrth gwrs, ond mae amrediad y gwariant rhwng awdurdodau gwahanol wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod. Erbyn 2013-14 roedd y gwariant blynyddol ar ddarparu llyfrgelloedd yn amrywio o £10,608 i £23,188 am bob 1,000 o'r boblogaeth breswyl.

97. Mewn rhai awdurdodau, ond nid pob un, gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr ad-daliadau mewnol canolog a godir ar wasanaethau llyfrgell fel cyfran bwysig o'r cynnydd yn y gwariant a gyhoeddwyd ar ddarparu llyfrgelloedd. Golygodd hyn gynyddu gwariant gan awdurdodau ar eu gwasanaethau llyfrgell a golygodd fod cyfanswm Cymru gyfan yn fwy. Ni fyddai defnyddwyr llyfrgelloedd cyhoeddus wedi gweld unrhyw fanteision diolch i'r gwariant, oedd yn ymddangos yn uwch, ar ddarparu llyfrgelloedd yn yr amgylchiadau hyn.

98. Roedd y perfformiadau a nodwyd gan awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn eu Datganiadau Blynyddol ar gyfer 2013-14 ychydig yn well na 2012-13. Roedd nifer o Safonau a gyflawnwyd yng Nghymru wedi codi i 6.5 ar gyfartaledd yn sgil camau a gymerwyd a chyflwyno targedau gwella mewnol. Mewn cyd-destun o gyllidebau llai, mae'r gwasanaethau llyfrgelloedd a'u rheolwyr yn haeddu eu canmol am gyflawni hyn. Yn 2012-13 y cyfartaledd oedd 6 ac yn 2011-12 y nifer cyfartalog a gyflawnwyd oedd 5.5. Serch hynny, mewn Fframweithiau blaenorol roedd yr awdurdodau fel rheol wedi llwyddo i godi eu perfformiad yn uwch na hynny ym mlwyddyn derfynol y cylch tair blynedd.

99. Mae dadansoddiadau ac ymchwil blaenorol wedi dangos y gall y gwahaniaethau rhwng llwyddo neu fethu'r Safonau fod yn fach iawn mewn llawer o awdurdodau llyfrgell yng Nghymru a bod perfformiadau yn tueddu i fod yn eithaf simsan o flwyddyn i flwyddyn. Gall newidiadau bach iawn i niferoedd staff gael effaith sylweddol ar berfformiad gan arwain at welliant neu ddirywiad, a gall lleihau'r cronfeydd llyfrau effeithio ar berfformiadau mewn sawl un o'r Safonau sy'n plethu â'i gilydd. Fodd bynnag, mae unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn agweddau ar y ddarpariaeth, hyd yn oed os ydynt yn fach iawn, yn gallu gwella cyflawniadau'n sylweddol.

100. Gosododd Llywodraeth Cymru dargedau a meincnodau is ym Mhedwerydd Fframwaith y Safonau a'r Dangosyddion Perfformiad, gan ragweld llai o wariant cyhoeddus. Roedd yn rhesymol disgwyl felly y dylai'r cyflawniadau mewn perthynas â'r Safonau wella. O'r 22 o awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, ym mlwyddyn derfynol y pedwerydd Fframwaith Safonau, cyflawnodd 14 o awdurdodau un neu ragor o Safonau ychwanegol, safodd 5 yn eu hunfan a gwelodd 2 gwymp yn eu cyflawniadau o'u cymharu â 2012-13. Fodd bynnag, gellir gweld pa mor simsan yw'r sefyllfa o ystyried mai dim ond 11 o awdurdodau oedd wedi cyflawni mwy o Safonau dros y tair

blynedd o fis Ebrill 2011 ymlaen; ni wnaeth yr 11 sy'n weddill gyflawni unrhyw gynnydd yn erbyn y Safonau cyhoeddedig. Gwelodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau amrywiad yn eu perfformiadau dros y tair blynedd.

101. Y meysydd a fesurir gan y Safonau ac sy'n cynnig yr her fwyaf i awdurdodau, a lle mae perfformiadau wedi dirywio'n gyson, yw staffio (dim ond 5 awdurdod oedd yn cwrdd â'r Safon yn 2013-14) a'r cronfeydd prynu llyfrau a deunyddiau (dim ond 12 o'r 22 o awdurdodau oedd yn cwrdd â'r gofynion a nodir yn y Safon erbyn 2013-14). Dyma'r ddau faes gwariant sydd wedi dioddef y gwaethaf o'r toriadau graddol yn y blynyddoedd diweddar a dyma'r meysydd hefyd sydd wedi'u clustnodi'n bennaf ar gyfer toriadau sylweddol yn y blynyddoedd i ddod os gweithredir yn llawn holl gynlluniau gwariant presennol yr awdurdodau.

102. Er bod llawer o awdurdodau wedi moderneiddio llawer o'u hadeiladau llyfrgell gyhoeddus yn ddiweddar, rhai gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, cymharol ychydig sy'n cwrdd â'r Safon ddangosol ar gyfer gofod digonol ar hyn o bryd ac mae'n hysbys bod llyfrgelloedd wedi cau ac y bydd rhagor yn cau, ac felly mae'n anochel y bydd y ddarpariaeth yn dirywio yn y maes hwn. Yn eironig, mae darpariaeth ddaearyddol – sef darparu mynediad cyhoeddus cyfleus i fannau gwasanaeth yn agos at y rhan fwyaf o'r boblogaeth – yn un agwedd ar y ddarpariaeth lle mae awdurdodau llyfrgell Cymru yn perfformio'n dda ar hyn o bryd ond mae'n annhebygol iawn y bydd y lefel hon o ddarpariaeth yn cael ei chynnal. Ni fuddsoddwyd digon o amser nac ymdrech er mwyn datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau trwy gydweithio a chydleoli ac ni roddwyd digon o ystyriaeth i effaith tynnu gwasanaethau a darpariaeth llyfrgelloedd oddi ar gymunedau yn gyflym a therfynol.

103. Dyna'r rhesymau pam y gellir disgwyl y bydd natur ac ansawdd y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir yng Nghymru yn dirywio'n sylweddol dros y tair i bum mlynedd nesaf. Mae dadansoddiad cymharol cychwynnol rhwng perfformiadau presennol a thueddiadau yn y dangosyddion, a'r meini prawf mesur ansawdd yn y Pumed Fframwaith Safonau a dangosyddion ansawdd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 2014-17, yn awgrymau y gallai perfformiadau ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth gwympo'n sylweddol.

104. Mae awdurdodau llyfrgell, os byddant yn gweithredu eu holl doriadau gwariant arfaethedig o fis Ebrill 2014 ymlaen, yn debygol o fethu darparu gwasanaeth digonol o ran staffio, darparu lleoliadau cyfleus a mynediad at fannau gwasanaeth i lawer o gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Byddant hefyd yn methu buddsoddi ar lefelau addas er mwyn darparu stociau digonol a byddant yn ei chael yn anodd darparu digon o fuddsoddiad i gynnal a chadw a gwella darpariaeth TGCh. Mae'r rhain i gyd yn rhannau allweddol o'r gwasanaeth, os bwriedir darparu gwasanaeth llyfrgelloedd 'cynhwysfawr ac effeithlon'.

## Gwasanaeth Cynhwysfawr ac Effeithlon

105. Fel y nodwyd ym mharagraff 11 yn yr Adroddiad hwn, mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964[25] yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu "gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sy'n dymuno ei ddefnyddio". Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r Ddeddf wedi cael ei ddatganoli i Weinidogion Cymru ac ar hyn o bryd dyletswydd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yw "arolygu a hyrwyddo" gwella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

25 Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964.* Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1964/75

106. Mae'r Pumed Fframwaith Safonau yn nodi:

*Bydd y dangosyddion perfformiad a restrir yma yn helpu Llywodraeth Cymru i asesu a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf 1964 ai peidio, ac i asesu pa mor gynhwysfawr ac effeithlon yw dull darparu gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru.*

107. Canllawiau anstatudol yw Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd ond y Safonau yw'r ffynhonnell wybodaeth fwyaf cyson a chynhwysfawr ar draws awdurdodau lleol, er mwyn penderfynu a yw awdurdod lleol yn bodloni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon".

108. Mae tystiolaeth mewn perthynas ag ymchwil a wnaed ym mharagraffau 92-104 uchod yn dod i'r casgliad "y bydd perfformiadau'n dirywio'n sylweddol yn erbyn gwahanol Ddangosyddion Ansawdd o'u cymharu â 2011-14 rhwng 2014 a 2017". Ni chaiff y set lawn gyntaf o ddata mewn perthynas â pherfformiad awdurdodau lleol yn erbyn y Pumed Fframwaith Safonau ei chasglu tan fis Mehefin 2015, gyda'r data yn cael eu dadansoddi dros yr haf a llythyron gan y Dirprwy Weinidog, yn amlinellu perfformiad yr awdurdodau lleol, yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2015.

109. Mae'r lleihad sylweddol a ragwelir yn y gwasanaeth a ddarperir a'i effaith ar bobl Cymru yn peri pryder mawr i'r Panel. Fodd bynnag, wrth ystyried pa gyngor i roi i'r Dirprwy Weinidog ynghylch y tebygolrwydd o gydymffurfio â Deddf 1964, fe wnaethom ystyried nifer o ffactorau eraill.

110. Nododd rhai awdurdodau lleol fod y disgwyliadau yn y Safonau yn afrealistig, o safbwynt beth y dylid ei ystyried yn "gynhwysfawr ac effeithlon" yn yr hinsawdd ariannol bresennol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â threfniadau deddfwriaethol sydd wedi'u gosod er mwyn sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn gwneud gormod o ymrwymiadau ariannol, gan gynnwys:

### Delivering a balanced budget

*The Local Governmant Finance Act 1992 requires billing and precepting authorities to calculate their expected outgoings and income for the year – including any additions to or use of reserves. Where expected outgoings exceed expected income, the difference is the authority's council tax requirement for that year.*[26]

111. Datblygwyd y Pedwerydd a'r Pumed Fframwaith Safonau[27] yng nghyd-destun cyni cyllidol parhaus. Fodd bynnag, penderfynwyd na fyddai'n briodol gostwng na chodi'r targedau yn sylweddol ar gyfer safonau yn y Pumed Fframwaith o'u cymharu â'r rhai yn y Pedwerydd Fframwaith. Roedd y newidiadau yn canolbwyntio ar ddangos manteision llyfrgelloedd a'u heffeithiau, a rhoi cyfleoedd i lyfrgelloedd ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd arloesol, gyda'r hyblygrwydd i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Lle codwyd y targedau o'u cymharu â'r Pedwerydd Fframwaith, cafodd y cwmpas ei ehangu i gynnwys adnoddau electronig a chyfryngau newydd fel teclynnau symudol.

112. Mae Deddf 1964 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru alw am ymchwiliad lleol. Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u hargyhoeddi, yn dilyn yr ymchwiliad, bod yr awdurdod llyfrgell wedi methu cyflawni ei ddyletswyddau o ran y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn datgan "ei fod yn ddiffygiol". Gellir gwneud gorchymyn sy'n datgan bod awdurdod lleol yn ddiffygiol, "gan gyfarwyddo'r awdurdod lleol er mwyn cywiro'r diffyg i gyflawni rhai o'i ddyletswyddau yn y modd ac o fewn yr amser ac a nodir yn y gorchymyn".

26 Audit Commission. (2012). *Striking a Balance.* Ar gael yn http://tinyurl.com/o6q4tts

27 Llywodraeth Cymru. (2014). *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017.* Ar gael yn http://tinyurl.com/pde7toz

113. Os bydd yr awdurdod llyfrgell yn methu cydymffurfio â'r gorchymyn, gallai Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn pellach yn trosglwyddo swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â'r gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i Weinidogion Cymru. (Deddf 1964: Adran 10). Fodd bynnag, mae mater cyfreithiol allweddol arall i'w ystyried o safbwynt rhoi cyngor i'r Gweinidog ar y mater hwn, sef y diffyg diffiniad cyfreithiol clir o beth sy'n "gynhwysfawr ac effeithlon" yn nhermau Deddf 1964.

114. Efallai fod y diffyg eglurder hwn yn rhan o'r rheswm pam na fu llawer o ymyriadau gan lywodraethau yn ymarfer eu pwerau statudol dan Ddeddf 1964. Hyd yn hyn, bu'n well gan Weinidogion perthnasol Cymru fabwysiadu dull sy'n cydweithio â'r awdurdodau lleol i wella meysydd y nodwyd eu bod yn wan yn y broses asesu flynyddol dan Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

115. Oherwydd natur ddwys y newidiadau i ddarpariaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a wnaed gan ddau awdurdod ers Ebrill/Mai 2014, sef Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot yn arbennig, mae'r Panel yn credu ei bod yn bwysig cynnal dadansoddiad fesul cam o'r ddarpariaeth a'r perfformiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan gynnwys cael hyd i ddata ystyrlon. Dylai'r gwaith gynnwys y broses strategol a'r broses gynllunio, natur y ddarpariaeth newydd (dosbarthiad daearyddol a hygyrchedd), yr oriau agor, darpariaeth stoc, cynnal a chadw cyfleusterau, y berthynas â'r awdurdod llyfrgell lleol a chynaliadwyedd y trefniadau ariannol a'r modd y trefnir yr adnoddau eraill. Dylid cymharu'r data hyn â chyfnod tebyg cyn y newidiadau er mwyn cael mewnwelediad i effaith y newidiadau. Dylai'r astudiaeth ystyried mesurau mewnbwn ac allbwn.

116. Mae'r Panel hefyd yn argymell y dylai CyMAL fonitro datblygiad yr ymddiriedolaeth diwylliant a hamdden sydd newydd gael ei ffurfio ac sy'n darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ym Mlaenau Gwent. O wneud hynny, byddai'n haws i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol ddeall sut y mae modelau gwasanaeth gwahanol yn perfformio yn erbyn gofynion y Pumed Fframwaith Safonau.

## Argymhelliad:

IV. Dylai CyMAL weithredu yn syth i gasglu tystiolaeth ac asesu effaith newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd ar y cymunedau yr effeithir arnynt yng nghyd-destun gofynion statudol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent er mwyn goleuo'r penderfyniadau y bydd awdurdodau lleol eraill yn eu gwneud yn y dyfodol. Dylai CyMAL gyhoeddi adroddiad ar ôl cyfnod cychwynnol o 3 mis o ymchwil ac adroddiad llawn ar ôl 12 mis.



# 4. Modelau Darparu Gwasanaethau i'r Dyfodol

## Cais am Dystiolaeth

117. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth a ddarparwyd i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol mewn ymateb i'r llythyr a gyhoeddwyd gan CyMAL ym mis Ionawr, a'r ohebiaeth gan y cyhoedd, yn naturiol yn canolbwyntio ar werth y gwasanaethau i unigolion, teuluoedd a chymunedau, ynghyd ag effeithiau uniongyrchol newidiadau arfaethedig. Felly cytunodd y Panel y dylai'r cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd ar 13 Mai, gyda dyddiad cau ar 20 Mehefin, ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth a sylwadau am fodelau o gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol.

118. Hysbysebwyd y cais am dystiolaeth trwy dargedu e-byst at amrywiaeth o randdeiliaid, ei hyrwyddo ar restrau trafodaeth llyfrgelloedd ac ar gyfryngau cymdeithasol. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori trwy wahoddiad i drafod Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r Adolygiad Arbenigol. Mynychodd 43 o unigolion y cyfarfodydd.

119. Derbyniwyd 42 o ymatebion o ganlyniad i'r cais am dystiolaeth. Derbyniwyd cyfraniadau gan amrywiaeth eang o randdeiliaid, sef y cyhoedd, grwpiau cefnogi llyfrgelloedd, awdurdodau lleol a'u gwasanaethau llyfrgell, staff llyfrgelloedd, cymdeithasau llyfrgelloedd a mudiadau ac asiantaethau eraill oedd â diddordeb. Mae crynodeb o'r ymatebion a rhestr o'r rhai a atebodd i'w gweld yn http://cymru.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries/cymal/libraries/public-libraries-review/?skip=1&lang=cy.

120. Dyma grynodeb o'r ymatebion o dan bob un o'r 4 cwestiwn a ofynnwyd.

*a) Pa wasanaethau y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus eu darparu yn y dyfodol i gwrdd ag anghenion pobl Cymru, sy'n newid yn gyson?*

121. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebion y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus barhau i gyflawni eu swyddogaethau craidd a fu'n greiddiol i'w gwasanaethau ers y cychwyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parhau i gynnig mynediad **yn ddi-dâl** i adnoddau a gwybodaeth
- Hyrwyddo dysgu gydol oes
- Hyrwyddo llythrennedd
- Cydlyniant cymunedol/canolbwynt cymunedol
- Darparu staff gwybodus i helpu defnyddwyr
- Hyrwyddo iechyd a lles
- Darparu amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol ac addysgol
- Hyrwyddo iaith a llenyddiaeth Cymru
- Hyrwyddo diwylliant a threftadaeth
- Mynd i'r afael â thlodi.

122. Pwysleisiwyd hefyd rôl gynyddol llyfrgelloedd cyhoeddus o ran ymateb i heriau mwy diweddar fel gwella gwasanaethau digidol a helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar-lein newydd fel Credyd Cynhwysol.

123. Pwysleisiwyd hefyd sut y mae'r rolau hyn yn cyfrannu at flaenoriaethau allweddol llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.

*b) Beth ddylai rôl a swyddogaethau gweithlu llyfrgelloedd cyhoeddus fod yn y dyfodol?*

124. Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebion rôl staff gwybodus a medrus wrth helpu defnyddwyr llyfrgelloedd. Nodwyd hefyd fod rôl gynyddol i staff llyfrgelloedd wrth weithredu'n fwy rhagweithiol fel addysgwyr i hyrwyddo sgiliau llythrennedd, sgiliau llythrennedd gwybodaeth a sgiliau digidol. Er mwyn iddynt gyflawni'r dyletswyddau hyn a bod yn hyddysg yn y datblygiadau technolegol diweddaraf, pwysleisiwyd pwysigrwydd rhaglen ddatblygu'r gweithlu i sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol i gyflenwi'r

gwasanaethau hyn. Roedd cefnogaeth o hyd i'r partneriaethau hyfforddi a ddarperir yn rhanbarthol yng Nghymru.

125. Cyflwynodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ddyfyniadau yn pwysleisio'r gwerth y mae defnyddwyr llyfrgelloedd yn eu rhoi ar y staff a'r cymorth y maent yn ei roi.

126. Mynegodd llawer eu pryder na fyddai'r lefel hon o wasanaeth ar gael yn y dyfodol mewn rhai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Er yn cydnabod y cynnydd yn nifer y llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, roedd cefnogaeth gan y sector llyfrgelloedd a'r sector gwirfoddol i fodel partneriaeth lle byddai gwasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol yn darparu adnoddau a staff.

c) *Sut y gall llyfrgelloedd yng Nghymru gydweithio yn y dyfodol i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol ar gyfer pobl Cymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol?*

127. Roedd cefnogaeth gref i barhau a datblygu'r amrywiaeth o fentrau cydweithredol rhwng llyfrgelloedd o bob math sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru wrth gyflenwi gwasanaethau. O ran cydweithio ar draws y sectorau, crybwyllwyd pwysigrwydd trefniadau benthyg a mynediad rhwng llyfrgelloedd cyhoeddus a rhai academaidd, a'r partneriaethau llyfrgell rhanbarthol sy'n weithredol yng Nghymru.

128. Pwysleisiwyd y gwahanol fentrau cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer cyd-gaffael ar gyfer adnoddau printiedig ac electronig a manteision cyd-gaffael system reoli llyfrgelloedd cyhoeddus i Gymru.

129. Roedd cydnabyddiaeth glir hefyd fod yn rhaid cael mwy o gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy. Nododd ymatebion ysgrifenedig a llafar o'r seminarau y dylid ymchwilio i rannu staff arbenigol llyfrgelloedd ar draws ffiniau'r awdurdod lleol a rhannu gwasanaethau cefn swyddfa.

130. Roedd cefnogaeth i ddatblygu cydleoli gwasanaethau cyhoeddus, lle'r oedd hyn yn addas, a pharhau gyda mentrau cenedlaethol i ddatblygu cynulleidfaoedd.

d) *Oes angen fframwaith deddfwriaethol a/neu fodel darparu newydd ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru?*

131. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i Ddeddf Llyfrgelloedd newydd ar gyfer Cymru, roedd mwy o gefnogaeth gan y sector llyfrgelloedd cyhoeddus, yn enwedig yn y seminarau, i wneud Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ganllawiau statudol. Nodwyd angen pendant i ddiffinio beth a olygir wrth "wasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon" dan y Ddeddf. Roedd cefnogaeth i ddefnyddio'r Safonau i helpu i ddiffinio hyn ond gofynnodd llawer o'r rhai atebodd am fwy o eglurder hefyd ynghylch pryd a sut y byddai unrhyw ymyrraeth yn digwydd petai gwasanaethau llyfrgell awdurdodau lleol yn methu gwneud cynnydd i gydymffurfio â'r Safonau.

132. Yr ymateb mwyaf cyffredin yn yr adran hon oedd cefnogi model cenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru. Crybwyllwyd nifer o fodelau gwahanol, gan amrywio o wasanaeth cenedlaethol, tebyg i Libraries NI yng Ngogledd Iwerddon, i gael corff cenedlaethol i gyd-drefnu gwasanaethau llyfrgelloedd gan gyflenwi gwasanaethau yn lleol neu'n rhanbarthol.

## Tueddiadau i'r Dyfodol o ran Darparu Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus

### Tueddiadau demograffig ac economaidd

133. Wrth edrych ar dueddiadau'r dyfodol o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, mae'n hanfodol ystyried ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol a

fydd yn dylanwadu ar ofynion defnyddwyr y dyfodol a sut y darperir gwasanaethau dros y degawd nesaf. Amlinellir y rhain yn Deall Dyfodol Cymru[28].

134. Rhagamcenir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu i 3.19 miliwn erbyn 2022. Disgwylir i nifer y plant gynyddu o 2% a nifer y bobl 65 mlwydd oed a hŷn gynyddu o 50% rhwng 2012 a 2037. Disgwylir i nifer y bobl rhwng 16 a 64 mlwydd oed leihau o 3% yn ystod yr un cyfnod.

135. Un o'r dylanwadau allweddol ar ddarpariaeth gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol yw'r rhagolygon ar gyfer arian cyhoeddus. Mae ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a gyhoeddwyd yn 2013 dan y teitl Scenarios for *Welsh Government Budget to 2025-26*[29] yn nodi:

*The Government's plans imply the fiscal consolidation will be complete in 2017-18. This implies that spending could then begin to grow again in 2018-19 and beyond. However, it is possible that further fiscal consolidation is required beyond 2017-18, which might take the form of additional spending cuts. Because of this, and because the long-term rate of economic growth in the years ahead is unclear, the path for total UK government spending between 2017-18 and 2025-26 is uncertain.*

*The block grant for Wales will depend upon not only the overall level of government spending, but also how the UK government decides to allocate that spending between benefits and tax credits and various Whitehall departmental budgets. If, as in our most pessimistic scenario yet-to-be-allocated cuts in 2016-17 and 2017-18 fall entirely on departmental spending, and Whitehall offers no protection to English health and education spending, the Welsh block grant is set to fall by 9% in real terms to £13.7 billion in today's prices in 2017-18. Under our most optimistic scenario, where there are a further £10 billion of benefit cuts or tax increases by 2017-18, and where health and education spending are protected, the Welsh block grant would instead be 5% lower than today (at £14.3 billion).*

136. Mae'r wybodaeth uchod yn dangos bod y rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus tan ddiwedd 2017-18 yn heriol a dweud y lleiaf, gyda rhagor o doriadau i wariant cyhoeddus a mwy o bwysau ar gyllid Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol.

## Swyddogaethau craidd i'r dyfodol

137. Ceir llawer o adroddiadau ymchwil i dueddiadau'r dyfodol o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, gan gynnwys adroddiadau fel yr adroddiad arloesol *Public Libraries in a Knowledge Society*[30] (Denmarc) yn 2010; a'r adroddiad diweddarach *Envisioning the library of the future* (Lloegr)[31] a *Tomorrow's Library*[32], (Victoria, Awstralia).

138. Wrth adnabod swyddogaethau craidd llyfrgelloedd cyhoeddus yn y dyfodol, mae'r adroddiadau yn amlinellu llawer o swyddogaethau craidd cyfarwydd fel hyrwyddo mynediad at wybodaeth, dysgu gydol oes, lles, cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Y newid mawr a nodir ar gyfer y dyfodol yw sut y darperir y swyddogaethau craidd hyn er mwyn cwrdd â natur newidiol cymdeithas, arferion ac anghenion dinasyddion a datblygiadau technolegol.

[28] Llywodraeth Cymru. (2012). *Deall Dyfodol Cymru.* Ar gael yn http://tinyurl.com/pfuqcb5

[29] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2013). *Scenarios for Welsh Government Budget to 2025-26.* Ar gael yn http://www.ifs.org.uk/comms/r83.pdf

[30] Danish Agency for Libraries and Media. (2010). *Public Libraries in a Knowledge Society: Summary from the committee on public libraries in the knowledge society.* Ar gael yn http://tinyurl.com/n5cul3k

[31] Arts Council England. (2012/13). *Envisioning the library of the future.* Ar gael yn http://tinyurl.com/p9qcyk3

[32] State Government of Victoria. (2012/13). *Tomorrow's Library: Stage 1 and 2.* Ar gael yn http://tinyurl.com/ptldym3



## Technoleg

139. Un o'r ffactorau mwyaf sy'n sbarduno newid yw technoleg. Mae'n her i lyfrgelloedd cyhoeddus mewn sawl ffordd, gan gynnwys:

- Gall darparwyr gyflenwi adnoddau yn ddi-dâl/am gost isel yn uniongyrchol i bobl lle bynnag y bônt wrth i ddinasyddion gael eu cysylltu 'yn barhaus' â'r rhyngrwyd.
- Mae mwy o bobl yn cael mynediad at lyfrau, papurau newydd, cylchgronau, gwybodaeth, ffilmiau a cherddoriaeth ar-lein.
- Mae 73% o aelwydydd a 77% o oedolion yn defnyddio'r rhyngrwyd ar hyn o bryd yn ôl *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13: Digital inclusion.*[33]
- Mae ystadegau am y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus yn Sweden yn dangos lleihad sylweddol yn nifer y llyfrau, papurau newydd a chyfnodolion printiedig sy'n cael eu defnyddio, gan gynnwys benthyciadau llyfrau plant, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus. Nid yw'r cynnydd yn nifer yr e-lyfrau sy'n cael eu benthyg yn gwneud iawn am y lleihad hwn. Efallai mai un o'r rhesymau dros y lleihad hwn yw diffyg e-gynnwys addas mewn llyfrgelloedd cyhoeddus.[34]
- Llai o incwm trwy fenthyg cyfryngau heblaw llyfrau, a dileu rhai gwasanaethau o ganlyniad.
- Mae'r amrywiaeth mewn cytundebau trwyddedu gan gyhoeddwyr yn rhwystr i ddatblygu llyfrgell gyhoeddus ddigidol gynhwysfawr.
- Bydd cyflymder newidiadau technolegol ac oes e-fformatau a chaledwedd yn dod i ben yn ei gwneud yn ddrud i lyfrgelloedd cyhoeddus gadw i fyny gyda datblygiadau. Bydd hyn yn sicr yn broblem i lyfrgelloedd llai a reolir gan y gymuned.

140. Fodd bynnag, mae technoleg hefyd yn rhoi cyfleoedd i wella gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a chyrraedd defnyddwyr newydd ble bynnag y bônt a phryd bynnag y bo arnynt angen mynediad trwy dechnoleg symudol:

- Mae rôl o hyd i staff llyfrgelloedd, fel rhai y gellir ymddiried ynddynt, i hwyluso mynediad at wybodaeth ar-lein.
- Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus fel Paru Swyddi Ar-lein a Chredyd Cynhwysol wedi dangos y byddai rôl o hyd i lyfrgelloedd cyhoeddus o ran datblygu sgiliau TGCh pobl, rhoi cymorth i gael mynediad at wasanaethau a mynd i'r afael ag eithrio digidol.
- Cydlynu'r ystod amrywiol o e-wasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd cyhoeddus gan i gynnig llyfrgell ddigidol gyfannol a deniadol.
- Mae cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfleoedd rhad i farchnata gwasanaethau llyfrgell gan dargedu'n fanylach.
- Gellir creu cymunedau ar-lein fel grwpiau darllen.
- Gall y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus greu a chyhoeddi eu hadnoddau gwybodaeth eu hunain.

## Adeiladau Llyfrgell

141. Yn dilyn cyfnod o dwf, mae nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru ychydig yn llai ar hyn o bryd (ffigur a, tudalen 13). Fodd bynnag, o ran pwyntiau gwasanaeth unigol sydd wedi'u moderneiddio, mae tystiolaeth fod y niferoedd sy'n eu defnyddio yn parhau i dyfu, yn enwedig niferoedd y teuluoedd a'r plant ifanc. Er bod nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg yng Nghymru yn lleihau, benthyg llyfrau yw'r prif reswm o hyd pam y mae pobl yn ymweld â llyfrgelloedd cyhoeddus. Dangosodd arolwg gan Scotinform, fel rhan o'u gwerthusiad o *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*, fod 82% o'r rhai a ymatebodd yn defnyddio'r llyfrgell i fenthyg llyfrau. Mae hyn yn amlygu un o'r heriau

---

33 Llywodraeth Cymru. (2014). *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13: Digital inclusion.* Ar gael yn http://tinyurl.com/po5bryl

34 Maceviciute, E. a Wilson, T. D. (2013). *E-Books in Swedish Public Libraries: Policy Implications.* Ar gael yn http://tinyurl.com/ltthy2f

i lyfrgelloedd cyhoeddus, sef cydbwyso'r gofynion newidiol rhwng adnoddau printiedig ac electronig. Hyd yma nid yw llyfrgelloedd cyhoeddus wedi gweld cymaint o newid, o adnoddau printiedig i adnoddau electronig, ag a welwyd gan lyfrgelloedd academaidd yng Nghymru.

142. Mae dadansoddi'r tueddiadau yn dangos bod gan adeiladau llyfrgell gyhoeddus rôl barhaus a honno'n rôl sy'n esblygu. Maent yn ganolog i'r gwasanaeth llyfrgelloedd gan eu bod yn ganolbwyntiau creadigol, diwylliannol ac addysgol i gymunedau. Gan hynny:

- Bydd angen i gynllun mewnol y llyfrgell fod yn fwyfwy hyblyg, gyda llefydd i ddarparu rhaglen eang o weithgareddau gan gynnwys rhai mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Un o lwyddiannau'r rhaglen foderneiddio bresennol, Llyfrgelloedd Dysgu Cymunedol, yng Nghymru oedd creu lleoliad deniadol y gall partneriaid ei ddefnyddio.
- Cymerir y cysyniad hwn gam ymhellach yn Llyfrgell 10 yn Helsinki lle mae'r llyfrgell yn galluogi defnyddwyr lleol i gymryd rôl weithredol wrth ddatblygu eu rhaglen eu hunain o weithgareddau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r llyfrgell yn cynnwys gofod perfformio gyda system sain a goleuadau.[35]
- Ceir tuedd gynyddol i gydleoli gwasanaethau cyhoeddus eraill gyda gwasanaethau llyfrgell mewn cyfleuster a rennir.
- Bydd galw o hyd ar i lyfrgelloedd ddarparu lle tawel lle gall unigolion a grwpiau astudio.

143. Amlinellir y tueddiadau hyn a thueddiadau eraill yn y modd y caiff llyfrgelloedd cyhoeddus eu cynllunio, er mwyn diwallu anghenion newidiol y cyhoedd, ar wefan ardderchog Asiantaeth Diwylliant Denmarc, *Model Programmes for Public Libraries*[36].

144. Yng Nghynhadledd CILIP yr Alban, 2014, amlinellodd Rolf Hapel, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dinasyddion a Llyfrgelloedd yn Aarhus, Denmarc y symudiad cyffredinol ym mhroffil y gwasanaeth o fod yn wasanaeth trafodaethol yn unig (benthyciadau a chwiliadau) tuag at wasanaethau perthynol, sef gwasanaethau newydd yn seiliedig ar hwyluso cyfathrebu perthynol (cyfarfodydd, rhaglenni, arddangosfeydd, gweithdai etc).[37] Nododd y bydd y gwasanaethau trafodaethol traddodiadol a wneir gan staff yn cael ei awtomeiddio'n fwy ac y bydd rôl staff y llyfrgelloedd felly'n newid.

## Gweithlu'r Llyfrgelloedd

145. Nododd ymchwil a gomisiynwyd gan CyMAL yn 2009, *Cwsmer Cudd Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cymru*:

*Gwelwyd bod canlyniad cyffredinol yr ymarfer yn un positif iawn wrth i lyfrgelloedd sgorio'n dda iawn yn erbyn y meini prawf a osodwyd ar gyfer cyflwyniad, gwasanaeth a boddhad cwsmeriaid. Bron bob amser ystyrid y staff fel yr elfen allweddol a gâi'r effaith fwyaf ar brofiad y cwsmer.*[38]

146. Cadarnhaodd y canfyddiad hwn ganlyniadau ymchwil a wnaed gan Twelfth Man wrth ddatblygu *Strategaeth Farchnata Genedlaethol ar gyfer 2006-2011*[39] i Lyfrgelloedd lle canfuwyd mai:

*Staff are the singularly most vital aspect of the library user experience.*

147. Mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru yn cyflwyno cyfleusterau hunanwasanaeth yn raddol.

[35] Danish Agency for Culture. (2013). *Model Programmes for Public Libraries* (cyflwyniad i gynhadledd gan Kari Lämsä ar brosiect Llyfrgell 10). Ar gael yn http://tinyurl.com/nl9rtne

[36] Danish Agency for Culture. (2013). *Model Programmes for Public Libraries.* Ar gael yn http://modelprogrammer.kulturstyrelsen.dk/en/

[37] Hapel, R. (2010). *Urban Mediaspace Aarhus.* Ar gael yn http://tinyurl.com/msh2zrw

[38] Twelfth Man. (2009). *Cwsmer Cudd.* Ar gael yn http://tinyurl.com/plwdenz

[39] Twelfth Man. (2005). *National Marketing Strategy (2006-2011).* Ar gael yn http://tinyurl.com/or5pu8j

Y prif beth y dylid ceisio ei gyflawni trwy hyn yw rhyddhau staff llyfrgelloedd o ddyletswyddau trafodaethol er mwyn helpu pobl i gael y budd mwyaf posibl o adnoddau llyfrgelloedd cyhoeddus.

148. Mae dros hanner holl wariant llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael ei wario ar staff. Dengys ystadegau llyfrgelloedd y DU fod tua 60% o wariant refeniw ar lyfrgelloedd cyhoeddus wedi cael ei wario ar gostau staffio yn 2012-13.[40]

149. Mae tystiolaeth ym mharagraff 101 yn yr adroddiad hwn yn dangos mai dim ond 5 o'r 22 o awdurdodau llyfrgell sy'n debygol o gwrdd â'r safon ar staffio llyfrgelloedd cyhoeddus yn 2013-14. Hefyd, mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd toriadau pellach mewn staffio yn digwydd yn 2014-15. Mae hyn yn achos pryder mawr oherwydd un o hawliau craidd y Pumed Fframwaith Safonau, sef y fframwaith cyfredol, yw *"Bydd llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu"*. Gan nad oes cynllunio staffio manwl yn digwydd cyn y torri staffio, mae'n debygol y bydd prinder sgiliau mewn rhai awdurdodau lleol wrth i swyddi gael eu dileu.

150. Ystyriodd y Panel nifer o faterion hanesyddol eraill ac effeithiau newidiadau diweddar ar staffio a strwythurau staffio, gan gynnwys:

## Materion Hanesyddol

- Yn sgil ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996, gan greu awdurdodau llai, gwelwyd symudiad cyffredinol oddi wrth gyflogi staff arbenigol sy'n cynnig arbenigedd eang yn eu meysydd, tuag at fwy o gyffredinoli lle disgwylir i aelodau staff unigol gwmpasu nifer o feysydd arbenigol
- Mae'r prif lyfrgellydd proffesiynol gan amlaf yn is yn strwythur rheolaethol yr awdurdod lleol yn awr nag ydoedd cyn 1996.

## Effaith

- Mae strwythur staffio llyfrgelloedd cyhoeddus mewn awdurdodau lleol wedi dod yn fwyfwy fflat o ganlyniad i ailstrwythuro staffio, gan arwain at:
  - ddiffyg cyfleoedd i lyfrgellwyr gael dyrchafiad a llai o gyfle i ddatblygu arweinwyr y dyfodol;
  - pobl newydd yn gweld proffesiwn llyfrgellwyr yn llai deniadol o'i gymharu â phroffesiynau eraill;
  - datsgilio swyddi proffesiynol .
- Mae nifer o uwch reolwyr profiadol wedi ymddeol yn y blynyddoedd diwethaf ac ynteu ni chafwyd neb yn eu lle neu fe israddwyd y swydd.
- Nid yw awdurdodau lleol unigol yn trefnu fawr ddim hyfforddiant proffesiynol i staff llyfrgelloedd ac maent yn dibynnu'n gynyddol ar raglenni hyfforddiant rhanbarthol/cenedlaethol sy'n cael eu hariannu neu eu trefnu gan CyMAL a mudiadau llyfrgell proffesiynol. Mae awdurdodau lleol yn ei chael yn fwyfwy anodd rhyddhau staff i fynychu'r cyrsiau hyn, hyd yn oed pan fyddant yn ddi-dâl, oherwydd cost ariannu staff llanw.

151. Yr hyn a gaiff yr effaith fwyaf ar lefelau staff cyflogedig yn awr ac yn y dyfodol agos yw'r posibilrwydd o sefydlu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn lle rhai a reolir gan awdurdod lleol. Golyga hyn lai o staff llyfrgell profiadol a medrus. Mae undebau llafur a chyrff llyfrgellwyr proffesiynol[41] wedi codi'r mater hwn yn eu sylwadau i'r Panel. Mae hefyd yn groes i ganllawiau model Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gyfer polisi gwirfoddoli, sy'n nodi:

*Volunteering is a legitimate and crucial activity that is supported and encouraged by <Name of organisation> and is not intended to be a substitute for paid employment.*[42]

[40] Prifysgol Loughborough. (2014). LISU's UK Library Statistics/000003/02/2014: Library Expenditure. Ar gael yn http://tinyurl.com/nmgkf8a

[41] Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru. (2013). *Datganiad Sefyllfa ar Wirfoddoli mewn Llyfrgelloedd Cyhoeddus.* Ar gael yn http://tinyurl.com/meaxy7s

[42] Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. (2013). *Model volunteering policy.* Ar gael yn http://tinyurl.com/khhos8w

152. Mae'r newidiadau uchod a'r ystod newydd o sgiliau y bydd angen ar staff yn y dyfodol wrth i wasanaethau esblygu, er enghraifft uwch sgiliau TGCh a sgiliau fel addysgwyr, yn creu her fawr o ran sicrhau y datblygir gweithlu brwdfrydig a medrus i gynnig gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y dyfodol.

153. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a pharatoi hefyd at ailstrwythuro llywodraeth leol, sy'n debygol yn sgil argymhellion y *Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*, mae angen datblygu Cynllun manwl ar gyfer Datblygu'r Gweithlu gan gynnwys:

- datblygu llwybr gyrfaol clir;
- sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant perthnasol (galwedigaethol ac academaidd) ar gael i ennill cymwysterau priodol ar bob cam mewn gyrfa;
- rhaglen barhaus o ddigwyddiadau hyfforddi;
- darparu hyfforddiant mewn sgiliau arwain a rheoli i reolwyr llyfrgelloedd;
- cymorth ariannol trwy fwrsarïau i gwblhau cyrsiau hyfforddiant.

154. Yng Nghymru, mae'r seiliau wedi'u gosod eisoes i ddarparu llawer o'r elfennau hyn ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae gwaith Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Glyndŵr i ddatblygu cyrsiau galwedigaethol a gradd sylfaen mewn rheoli llyfrgelloedd a gwybodaeth i'w ganmol, ynghyd â gwaith parhaus yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae CyMAL hefyd yn darparu cymorth ariannol i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant rhanbarthol a bwrsarïau. Fodd bynnag, gan ystyried effaith y newidiadau presennol ac ailstrwythuro posibl yr awdurdodau lleol, byddai'n fuddiol cynnal adolygiad sylfaenol o'r modd y datblygir y gweithlu yng Nghymru ac yn sgil hynny byddai modd creu Cynllun cynhwysfawr ar gyfer Datblygu'r Gweithlu fel rhan o faes Buddsoddi mewn Pobl yn *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*[43].

155. Dylai'r Cynllun hwn ar gyfer Datblygu'r Gweithlu hefyd fynd i'r afael â materion fel recriwtio a chadw staff llyfrgelloedd a chadw mewn cof fod prinder o bobl sydd â sgiliau iaith Gymraeg. Bydd adroddiadau Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru: Gweithlu*[44] *ac Adnoddau Dynol yn Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru*[45] a'r ymchwil sydd ar y gweill gan CILIP ar y gweithlu yn darparu tystiolaeth fuddiol pan ddatblygir y Cynllun.

156. Ystyriwyd mater hyfforddiant priodol i wirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd yn y Pedwerydd Fframwaith Safonau. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos bod llawer o awdurdodau lleol yn dal wrthi'n sefydlu strwythurau rheoli priodol ar gyfer y gweithlu gwirfoddol. Mae'n rhaid rhoi sylw pellach i hyn, felly, a chymryd camau i sicrhau y caiff gwirfoddolwyr eu rheoli a'u hyfforddi fel grŵp arbennig. Mae CyMAL eisoes yn darparu cyrsiau hyfforddi i wirfoddolwyr a'u rheolwyr. Ar gyfer amgueddfeydd y bwriadwyd y cyrsiau hyn yn wreiddiol ond mae mwy a mwy o wirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd a'u rheolwyr yn eu mynychu hefyd.

## Argymhelliad:

VI. Dylai CyMAL gydweithio â staff, cyflogwyr, SCL Cymru, CILIP Cymru a'r undebau llafur i ddatblygu cynllun cynhwysfawr pum mlynedd gan ddechrau yn 2015-16, i ddatblygu'r gweithlu ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus a diwallu anghenion staffio i'r dyfodol. Ym marn y Panel dylid rhoi hyfforddiant penodol i wirfoddolwyr fel grŵp arbennig i ddiwallu eu hanghenion penodol.

[43] Llywodraeth Cymru. (2011). *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol ar gyfer datblygu Llyfrgelloedd Cymru 2012-2016.* Ar gael yn http://tinyurl.com/d5klr9y

[44] Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru. (2013). *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru: Gweithlu.* Ar gael yn http://tinyurl.com/p2fz8om Saesneg yn neu'n Gymraeg trwy ofyn i SCL Cymru.

[45] Roberts, H. (2006). *Y Gweithlu yn Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.* Ar gael yn http://tinyurl.com/pcqm3o2

## Modelau Cynaliadwy ar gyfer Darparu Gwasanaethau

### Cydweithio

157. Mae cydweithio wedi bod yn elfen amlwg mewn strategaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru er mwyn datblygu modelau mwy cynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau. Bu Cymru'n flaengar gyda datblygiadau o'r fath yn y DU. Maent yn cynnwys:

### Cenedlaethol

- y strategaeth genedlaethol gyntaf traws-sector ar gyfer llyfrgelloedd;
- Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru;
- caffael adnoddau printiedig ac electronig;
- menter datblygu cynulleidfaoedd cenedlaethol;
- porth llyfrgelloedd cenedlaethol – llyfrgelloeddcymru.org;
- caffael system rheoli llyfrgelloedd i Gymru;
- catalog cenedlaethol chwiliadwy o adnoddau llyfrgelloedd – CatCymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel un o'r partneriaid allweddol mewn mentrau digidol;
- cydweithio â phartneriaid fel Rhaglen Cymunedau 2.0 a'r Ganolfan Byd Gwaith mewn lleoliadau llyfrgell addas i helpu pobl sicrhau gwaith.

### Rhanbarthol

- mentrau benthyciadau rhwng llyfrgelloedd rhanbarthol;
- rhaglenni hyfforddiant rhanbarthol;
- mentrau llythrennedd rhanbarthol yn y Gogledd;
- mentrau gwybodaeth iechyd rhanbarthol gyda phartneriaid fel Cymorth Canser Macmillan.

### Lleol

- agor casgliadau llyfrgelloedd academaidd (addysg uwch ac addysg bellach) i'r cyhoedd;
- cydleoli ac integreiddio gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus mewn cyfleuster cymunedol a rennir.

Mae'r holl gynlluniau cydweithredol hyn yn cael eu darparu neu gellir cael mynediad iddynt yn lleol.

158. Fodd bynnag, mae'r Panel o'r farn nad oes llawn cymaint wedi'i gyflawni ag y buasai'r strategaethau bras hyn yn ei awgrymu, a bod digon o le i wneud mwy. Mae polisïau presennol Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen i gydweithio ymhellach er mwyn gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cynaliadwy. Mae'r toriadau i gyllid llyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr wedi arwain at gynnydd mawr yn nifer y prosiectau cydweithredol, yn enwedig ar lefel ranbarthol, fel partneriaeth North West Libraries.

159. Wrth ystyried mentrau cyfredol a rhai sydd i ddigwydd yn y dyfodol agos, daeth y Panel i'r casgliad na roddwyd digon o bwyslais ar werth cydweithio fel ffordd o fynd i'r afael â thoriadau yn yr adnoddau sydd ar gael. Felly mae'r Panel yn argymell yn gryf y dylai'r strategaethau i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol roi mwy o bwyslais, a hynny ar frys, ar gynlluniau cydweithredol, yn enwedig rhwng adrannau mewn awdurdodau lleol ac ar draws ffiniau'r awdurdodau. Mae angen i CyMAL barhau i flaenoriaethu prosiectau cydweithredol fel rhan o'i raglen o grantiau cyfalaf a refeniw, i helpu sefydliadau i newid a chyflenwi gwasanaethau ar y cyd.

160. Dylid parhau i roi lle canolog i gydweithio mwy, er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithlon a chynaliadwy, wrth lunio polisïau ar gyfer llyfrgelloedd at y dyfodol yng Nghymru fel yn Lloegr, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae *Cooperation, Partnership and Promotion* yn un o'r 7 rhaglen sydd wrth wraidd strategaeth newydd Gweriniaeth Iwerddon *Opportunities for All*[46] a fydd yn rhedeg tan 2017.

161. Nododd y Panel yr angen i CyMAL a'r sector llyfrgelloedd fynd ati i ymgysylltu â mentrau perthnasol fel y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy, sy'n edrych ar fodelau amgen a sut i ddarparu gwasanaethau gan ganolbwyntio ar y dinesydd, a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru wrth iddi gefnogi rhwydwaith amlasiantaethol sy'n delio â modelau amgen er mwyn darparu gwasanaethau.

## Argymhelliad:

VII. Dylai awdurdodau lleol gydnabod yr angen am fwy o bwyslais, a hynny ar frys, ar gynlluniau cydweithredol yn eu strategaethau ar gyfer darparu llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol, yn enwedig rhwng adrannau awdurdodau lleol, ar draws ffiniau'r awdurdodau lleol a chyda llyfrgelloedd eraill yn y sector cyhoeddus, a dylent ymateb i'r angen hwnnw. Dylai'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ystyried, wrth benderfynu beth yw gwasanaeth "cynhwysfawr ac effeithlon", berfformiad ac ymroddiad yr awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau mewn modd cydweithredol.

### Llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned

162. Un o'r newidiadau pwysicaf o ran darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn Lloegr dros y tair blynedd diwethaf oedd datblygu beth sydd bellach yn cael eu galw'n llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Nododd ymchwil gan Arts Council England o'r enw, *Community Libraries – Learning from experience: guiding principles for local authorities.*[47]

- We found over 170 community libraries presently in operation, representing approximately five per cent of all public libraries in England. Most have come into operation in 2011 or 2012.

163. Nododd yr adroddiad y categorïau canlynol ble mae'r gymuned â rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus:

*Community Managed Co-produced Library – These are community-led and largely community delivered, rarely with paid staff, but often with some form of ongoing council support and often still part of the public library network.*

*Community Supported Co-produced library – These are council-led and funded, usually with paid professional staff, but given significant support by volunteers.*

*Commissioned Community Co-produced Library – These are commissioned and fully funded by the council, but delivered by a not-for- profit community, social enterprise or mutual organisation, either existing or newly created. Councils might commission:*

*a) individual libraries or*

*b) the whole library service.*

164. Dangosodd *Public Library Actuals 2012-13*, CIPFA, dwf sylweddol hyd at 288 o lyfrgelloedd yn y tri chategori uchod. Fodd bynnag, byddai adroddiadau yn y wasg yn awgrymu bod rhai o'r trefniadau hyn yn awr mewn trafferthion, er enghraifft Llyfrgell Alford yn Swydd Lincoln.[48]

165. Nododd yr un ystadegau gan CIPFA fod dwy lyfrgell gyhoeddus yng Nghymru, un yn Sir Gaerfyrddin ac un ym Mhen-y-bont ar Ogwr, wedi'u cynnwys yn y categorïau uchod sef llyfrgelloedd cymunedol. Fodd bynnag, bydd hyn yn cynyddu'n sylweddol o 2014-15 ymlaen ac felly nid yw'n syndod

[46] Department of the Environment, Comunity and Local Government. (2013). *Opportunities for All: The public library as a catalyst for economic, social and cultural development – A strategy for public libraries 2013-17.* Ar gael yn http://tinyurl.com/novm97u

[47] Arts Council England. (2013). *Learning from experience: guiding principles for local authorities.* Ar gael yn http://tinyurl.com/nobhgj6

[48] Lincolnshire Echo. (2014). *Alford Library blow as volunteers stand down.* Ar gael yn http://preview.tinyurl.com/pjfvffq

bod llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned erbyn hyn yn un o'r prif bwyntiau trafod yn y ddadl am ddyfodol llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru.

166. Fel y nodwyd ym mharagraff 85 ceir pedwar model o lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yng Nghymru ar hyn o bryd, yn seiliedig ar wahanol lefelau o gefnogaeth gan wasanaeth llyfrgelloedd yr awdurdod lleol o ran casgliadau, TGCh a staffio. I oleuo'r trafodaethau, ystyriodd y Panel nifer o adroddiadau gan gynnwys rhai gan Arts Council England; ymchwil newydd a wnaed gan Mike Cavanagh, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Cyngor Sir Benfro a phrosiect Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Cynhaliodd Peter Gomer, un o aelodau'r Panel, ymchwil bellach ar ddatblygiadau yn Dorset.

167. Roedd yr holl adroddiadau yn rhoi darlun cymysg, o brosiectau llwyddiannus fel yr un yn Swydd Buckingham, lle mae llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd, i anawsterau o ran cynaliadwyedd, er enghraifft yn Llyfrgell Alford yn Swydd Lincoln, lle penderfynodd tîm o wirfoddolwyr, oedd wedi rheoli'r llyfrgell am 16 mis, ddiweddu eu gwasanaethau ym mis Gorffennaf 2014.

168. Mae datblygu llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned wedi codi llawer o faterion, gan gynnwys:

- Dan ba amgylchiadau, os o gwbl, y dylai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fod yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod lleol?
- Yr angen i ganfod ffynonellau incwm i gynnal llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, gan gynnwys cynnal a chadw'r adeilad, datblygu casgliadau, TGCh a chostau dyddiol eraill.
- Anghenion hyfforddiant y gwirfoddolwyr.
- Materion cyfreithiol, ee diogelu data, gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Hawl Benthyg i'r Cyhoedd.
- Datblygu safonau neu achredu ar gyfer llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, tebyg i gynlluniau achredu amgueddfeydd ac archifau.
- Staff cyflogedig yn gweithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr.
- Lefelau gwasanaeth gwahanol rhwng llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned a llyfrgelloedd cyhoeddus a reolir gan awdurdod lleol.
- Modelau gwahanol o lyfrgelloedd a reolir gan y gymuned sydd hefyd yn cael effaith ar lefel yr arbedion a wneir gan awdurdodau lleol.

169. Mae casgliad ymchwil Mike Cavanagh[49] yn crynhoi'r sefyllfa bresennol yn y DU:

- *The study found widespread variation in the range of services offered and the extent of training received, across the community library network. Further, it found significant differences of opinion and priorities between the two research groups in respect of the relative importance of various effectiveness criteria and the ability of community managed libraries to deliver against these criteria.*
- *The evidence from this study points to a fragmented and inconsistent network of volunteer delivered libraries. A key reason is the variation in approach and level of support from local authorities. Some libraries have benefitted from financial support and ongoing professional advice and training, whilst others have had no financial assistance and limited support.*
- *The paper argues that the lack of national library standards [in England] is a contributory factor to this variation in service offerings and quality. As such, it advocates for the reintroduction of a standards framework and for more consistent provision of professional advice.*
- *These findings have important implications for policy makers at a national level, in respect of the case made for the*

49 Cavanagh, M. (2014). *Are Community Managed Libraries Effective?* Ar gael yn http://tinyurl.com/pqy2uth

*reintroduction of a standard/quality framework to reduce service variability. The findings will also be of value to local authorities that are considering implementing a community managed library model, …*

170. Ni ellir amau'r gwerth y mae'r cyhoedd yn ei roi ar eu llyfrgell gyhoeddus leol a'u hymroddiad i geisio achub y llyfrgell a'u staff a dim ond pan fo popeth arall wedi methu y bydd gwirfoddolwyr yn camu i'r bwlch i reoli a rhedeg eu llyfrgell leol.

171. Ystyriodd y Panel yn ddwys y cwestiwn a ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn y dyfodol, gan edrych ar dystiolaeth a gyflwynwyd gan wahanol randdeiliaid, yn ysgrifenedig neu yn ystod cyfarfodydd ymgynghori a gynhaliwyd yn y Gogledd a'r De. Gofynnodd y sector a'r defnyddwyr am eglurhad ar y mater hwn. Mae'r arferion cyfredol yn Lloegr yn amrywio gyda rhai awdurdodau yn cynnwys cyfraniad llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned fel rhan o'u darpariaeth statudol ac eraill ddim. Ni fynegwyd consenswS clir ar y mater hwn yng Nghymru. O ganlyniad, ni all y Panel argymell y dylai llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned gael eu hystyried yn rhan o'r ddarpariaeth statudol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, petai'r ymarfer monitro a amlinellwyd ym mharagraff 115 yn darparu tystiolaeth glir fel arall, gellid cyfiawnhau ailystyried y mater.

172. Teimlai'r Panel fod y model o lyfrgell â chefnogaeth gan y gymuned yn un sy'n haeddu cael ei ailystyried ar sail meini prawf clir. Gallai'r meini prawf fod yn seiliedig ar hawliau craidd a amlinellir yn y Pumed Fframwaith Safonau a amlinellir yn Atodiad 3.

173. Mae'r Panel yn cefnogi'r ceisiadau, a nodwyd yn y cais am dystiolaeth ac mewn trafodaethau anffurfiol â llyfrgellwyr, i gasglu a rhannu dogfennaeth mewn perthynas â rheolaeth llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned, ee cytundebau lefel gwasanaeth a dogfennau cyfreithiol eraill. Mae Cyngor Conwy wedi datblygu set o ddogfennau cyfreithiol sydd bron yn gyflawn ac mae wedi nodi ei fod yn fodlon eu rhannu. Bydd y ddogfennaeth hon yn helpu awdurdodau lleol, gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a grwpiau cymunedol sy'n ystyried yr opsiwn hwn.

174. Mae lefel y bartneriaeth/cefnogaeth barhaus a ddarperir gan y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus lleol yn allweddol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned. Mae'r Panel yn cefnogi'r model hwn o bartneriaethau llyfrgell yn llwyr ac yn nodi bod angen gwaith pellach i adnabod y model mwyaf effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau.

## Argymhelliad:

VIII. Ni ddylid ystyried llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned (sef yr hyn a amlinellir ym mharagraff 85) fel rhan o'r ddarpariaeth llyfrgell statudol ar hyn o bryd, yn amodol ar ganfyddiadau'r ymchwil a gynigir yn argymhellion IV a IX. Ni ddylid cynnwys data am lyfrgelloedd nad ydynt yn rhan o'r ddarpariaeth statudol yn yr adroddiadau dan Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

IX. Dylai CyMAL gydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu canllawiau a dogfennaeth briodol ar gyfer cytundebau partneriaeth sy'n nodi'r gofynion sylfaenol a fyddai'n galluogi llyfrgell a gefnogir gan y gymuned i gael ei hystyried yn rhan o ddarpariaeth statudol yr awdurdod. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol perthnasol fel rhan o'r broses hon. Dylai CyMAL ddatblygu erbyn mis Ionawr 2015 y meini prawf i lyfrgell a gefnogir gan y gymuned gael ei chynnwys yn rhan o'r ddarpariaeth statudol a rhoi'r rhain ar waith o fis Ebrill 2015 ymlaen.

### Strwythur darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru

175. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r adolygiad, ynglŷn â chyllid awdurdodau lleol i'r dyfodol a'r effaith debygol ar berfformiad awdurdodau lleol yn erbyn y Pumed Fframwaith Safonau, mae'r Panel yn

credu na fydd cael y 22 o awdurdodau lleol yn darparu llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn ymarferol i'r dyfodol. Mae hefyd yn glir bod strwythur presennol yr awdurdodau lleol yn debygol o newid oherwydd penderfyniadau gwleidyddol a chyfyngiadau ar adnoddau.

176. Yn ei gyflwyniad i adroddiad y *Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*[50] a gyhoeddwyd yn Ionawr 2014, sydd yn adolygu'r modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, dyma a ddywed Syr Paul Williams:

*Heb y newidiadau a gynigiwn, credwn y byddai nifer gynyddol o wasanaethau y mae ein dinasyddion a'n cymunedau yn dibynnu arnynt yng Nghymru yn methu. Mae'n llawer gwell buddsoddi mewn gwaith diwygio nawr, cyn ei bod yn rhy hwyr, a chreu gwasanaethau cyhoeddus a sector cyhoeddus y gallwn ymfalchïo ynddynt, yn hytrach na wynebu toriadau anghynaladwy i swyddi a gwasanaethau rheng flaen, a hynny am gyfnod hir.*

177. Mae'r ddadl ynghylch strwythur diwygiedig i'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau ac mae'r cynigion diweddaraf yn cael eu hamlinellu yn y *Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol*[51] a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Papur Gwyn yn nodi mai'r opsiwn a ffafrir yw opsiwn cyntaf y Comisiynwyr, sef sefydlu 12 awdurdod lleol yng Nghymru:

- Ynys Môn a Gwynedd;
- Conwy a Sir Ddinbych;
- Sir y Fflint a Wrecsam;
- Ceredigion a Sir Benfro;
- Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr;
- Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful;
- Caerdydd a Bro Morgannwg;
- Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen;
- Sir Fynwy a Chasnewydd;
- Sir Gaerfyrddin, Powys ac Abertawe yn parhau heb gael eu newid.

178. Mae'r Panel yn credu'n gryf, waeth beth fydd yn digwydd o ran ad-drefnu llywodraeth leol, fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth ar unwaith i hyrwyddo cydweithio rhwng awdurdodau llyfrgell.

## Modelau amgen o gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus

179. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan CyMAL yn nodi bod nifer o fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau ar waith yn y DU ac Iwerddon. Mae'r rhain yn disgyn i ddau gategori.

180. Yn gyntaf, cydweithio:

- uno gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn llawn, yn rhanbarthol neu'n genedlaethol fel yng Ngogledd Iwerddon;
- uno swyddogaethau swyddfa gefn yn unig;
- cydweithio ar swyddogaethau unigol ac nid o anghenraid ar sail ddaearyddol;
- un awdurdod yn comisiynu awdurdod arall i ddarparu gwasanaethau yn ei ardal (ee darparu llyfrgelloedd symudol);
- cydweithio rhwng gwahanol fathau o lyfrgelloedd mewn ardal ddaearyddol (ee prifysgol, coleg etc). Er enghraifft, Prifysgol Caerwrangon a Swydd Caerwrangon – The Hive.

181. Mae ymchwil yn dangos y ceir mwy o enillion ariannol lle mae ehangder a/neu ddyfnder y cydweithio yn fwy.

182. Os yw awdurdodau lleol am gael eu huno mewn ymateb i adolygiad y *Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*, mae'r Panel yn credu y byddai'n briodol casglu tystiolaeth bellach hefyd ar ddatblygu gwasanaeth llyfrgelloedd rhanbarthol, efallai ar sail y tair partneriaeth llyfrgelloedd rhanbarthol presennol yng

[50] Llywodraeth Cymru. (2014). *Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.* Ar gael yn http://tinyurl.com/on2xp8o

[51] Llywodraeth Cymru. (2014). *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol.* Ar gael yn http://tinyurl.com/ls42jn9

Nghymru. Ceir tri gwasanaeth archifau rhanbarthol yn y De a ariennir ar y cyd gan awdurdodau lleol gyda strwythurau llywodraethu addas yn eu lle. Maent yn llwyddiannus ac mae dau wedi'u lleoli mewn cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf. Mae eu llwyddiant yn wrthgyferbyniad llwyr i'r gwasanaethau archifau sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau unigol, y mae llawer ohonynt mewn adeiladau anaddas ac yn wynebu heriau ariannol mawr ac mewn perygl o golli eu statws fel cadwrfeydd cofnodion cyhoeddus. Mae addysg yng Nghymru hefyd yn symud yn gynyddol i gyfeiriad strwythur rhanbarthol.

183. Yn ail, darpariaeth gan gyflenwyr allanol – rhedeg gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus trwy wahodd tendrau (er nad yw tendro yn ofyniad cyfreithiol os bydd awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb am reoli ar ran un neu ragor o awdurdodau eraill). Mae'n gweithredu fel rheol trwy gontract cytunedig a chyda pherthynas cleient/contractwr rhwng y ddau barti. Yn y DU ceir enghreifftiau o wasanaethau a gyflwynir gan:

- ymddiriedolaeth – fel rheol fel rhan o ymddiriedolaeth hamdden neu ddiwylliannol (llawer ohonynt yn Lloegr a'r Alban);
- menter gymdeithasol elusennol (mae Greenwich Leisure Ltd. yn rheoli Llyfrgelloedd Greenwich a Wandsworth);
- awdurdod llyfrgell arall yn darparu'r gwasanaeth (enillodd Cyngor Essex y tendr i reoli gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn Slough);
- sector preifat (ar ôl i Carillion gymryd John Laing Integrated Services drosodd fe wnaeth y cwmni gymryd drosodd rheolaeth llyfrgelloedd cyhoeddus yn Croydon, ymhlith llefydd eraill).

184. Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent oedd y cyntaf i gwblhau trosglwyddo ei wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i ymddiriedolaeth hamdden a diwylliant ym mis Hydref 2014. Fodd bynnag, mae'n hysbys bod rhagor o awdurdodau lleol yn ystyried yr opsiwn hwn fel rhan o ymddiriedolaeth hamdden/diwylliant. Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i gytundeb â chwmni dielw i reoli rhai agweddau ar ei lyfrgelloedd a gydleolir mewn tair canolfan hamdden. Gallai gwaredu cyfrifoldeb am rannau o'r gwasanaeth llyfrgelloedd, er enghraifft i lyfrgell a reolir gan y gymuned, hefyd fod yn ffordd o gael cyflenwyr allanol i ddarparu'r gwasanaeth.

## Amser am Newid

185. Nid yw gwneud dim yn opsiwn. Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol Cymru'n cael eu had-drefnu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd gan olygu y bydd gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus presennol yn uno. Ar 8 Gorffennaf 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgyhghoriad ar y Papur Gwyn: *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol*[52]. Amlinellodd y papur amserlen arfaethedig ar gyfer deddfwriaeth i uno awdurdodau lleol:

- Ym mis Ionawr 2015, byddwn yn cyflwyno Bil cyntaf gerbron y Cynulliad a fydd yn cynnig y pwerau angenrheidiol i ganiatáu a hwyluso gwaith paratoadol pwysig ar gyfer rhaglen uno, ond ni fydd yn cynnig cynigion uno penodol.
- Yn fuan ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016, byddwn yn cyflwyno'r ail Fil hwn i'r Cynulliad, ac wedi iddo gael ei ystyried gan y Cynulliad rydym yn rhagweld y bydd yn cael Cydsyniad Brenhinol yn ystod Haf 2017.
- Ym mis Mai 2019, byddai etholiadau cyntaf yr Awdurdodau newydd i'w huno o dan ddarpariaethau'r ail Fil hwn yn cael eu cynnal, gyda'r cynghorwyr yn cael eu hethol am dymor o dair blynedd. Byddai'r Cynghorau sy'n weddill yn bodoli fel Awdurdodau cysgodol tan y Diwrnod Breinio ar 1 Ebrill 2020, pan fyddent

52 Llywodraeth Cymru. (2014). *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol.* Ar gael yn http://tinyurl.com/ls42jn9

yn cymryd yr holl swyddogaethau a'r hen Awdurdodau cyfansoddol yn cael eu diddymu.

186. Mae CLlLC wedi tynnu sylw at y perygl y bydd penderfyniadau strategol yn cael eu gohirio nes i'r cyrff newydd gael eu sefydlu.

187. Roedd y Panel yn gytûn na ellid aros tan ar ôl 2018-19 oherwydd y newidiadau mawr sy'n debygol o ddigwydd yng ngwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cyn hynny. Mae'n ymddangos na fydd rhai gwasanaethau llyfrgelloedd yn gallu darparu gwasanaeth o ansawdd da i ddinasyddion Cymru yn y tymor byr ac nad ydynt yn gynaliadwy yn y tymor canol. Mae'n hanfodol felly bod modelau o gyflenwi gwasanaethau trwy gydweithio yn cael eu hystyried, eu hasesu ac, os ydynt yn addas, eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd cyn i unrhyw awdurdodau lleol uno yn ffurfiol.

188. Mae tystiolaeth gynyddol, yn sgil y modelau cydweithio sy'n cael eu rhoi ar waith yn raddol, i gefnogi mwy o gydweithio wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a byddai'r Panel yn argymell y dylid ymchwilio i dri opsiwn a'u symud yn eu blaenau:

- Darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn lleol, yn unol â pha strwythur bynnag a sefydlir ar gyfer awdurdodau lleol yn y dyfodol
- Datblygu ymhellach gonsortia rhanbarthol a chenedlaethol i gyflenwi gwasanaethau megis:
  - caffael a chyflenwi system reoli llyfrgelloedd cyhoeddus yn genedlaethol
  - darparu hyfforddiant a rhannu swyddi arbenigol ar sail ranbarthol.
- Mae'r Panel yn ystyried bod maint Cymru yn addas ar gyfer darparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus cenedlaethol er lles pobl Cymru, a gydlynir gan gorff cenedlaethol fel yng Ngogledd Iwerddon. Mae angen gwaith pellach i benderfynu a ddylid llunio a rhedeg corff o'r fath ac os felly sut, a beth fyddai manteision trefniant o'r fath.

## Argymhellion:

X. Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â CLlLC a'r awdurdodau lleol i symud ymlaen gyda'r gweithredoedd strategol canlynol:

a) hyrwyddo mwy o gydweithio ar raddfa ehangach rhwng awdurdodau a hynny ar unwaith;

b) datblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn unol ag unrhyw fodel i lywodraeth leol a geir yng Nghymru yn y dyfodol a hynny fel ymrwymiad parhaus;

c) datblygu dull er mwyn cael consortia rhanbarthol neu genedlaethol i gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn y tymor canol (3-5 mlynedd), a hyn yn cael ei hwyluso gan gorff a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn derbyn cyllid addas;

d) gweithio tuag at nod terfynol o greu gwasanaeth llyfrgelloedd i Gymru a gyd-drefnir yn genedlaethol.

## Fframwaith Deddfwriaethol

189. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, mae Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 yn amlinellu'r ddyletswydd ar awdurdodau llyfrgell fel a ganlyn: *"It shall be the duty of every library authority to provide a comprehensive and efficient library service for all persons desiring to make use thereof"*.

Mae Adran 7(2) o Ddeddf 1964 yn dangos i ryw raddau beth y mae cydymffurfio â'r Ddeddf yn ei olygu. Mae'n nodi: *"a library authority shall in particular have regard to the desirability –*

*(a) of securing, by the keeping of adequate stocks, by arrangements with other library authorities, and by any other appropriate means, that facilities are available for the borrowing of, or reference to, books and other printed matter, and pictures, gramophone records, films and other materials, sufficient in number, range and quality to meet the general requirements and any special requirements both of adults and children; and*

*(b) of encouraging both adults and children to make full use of the library service, and of providing advice as to its use and of making available such bibliographical and other information as may be required by persons using it; and*

*(c) of securing, in relation to any matter concerning the functions both of the library authority as such and any other authority whose functions are exercisable within the library area, that there is full co-operation between the persons engaged in carrying out those functions."*

190. Fodd bynnag nid yw'n rhoi diffiniad manwl o beth a olygir wrth "comprehensive and efficient". Disgrifiwyd hyn fel gwendid mawr yn Neddf 1964 sydd wedi'i gwneud yn anodd iawn gweithredu ac arolygu'r Ddeddf. Mae llawer o agweddau ar Ddeddf 1964 sydd wedi dyddio ac mae adroddiadau wedi cwestiynu pa mor addas ydyw mewn perthynas â gwasanaethau llyfrgelloedd modern sy'n esblygu o hyd.

191. Cyflwynwyd y Ddeddf ym 1964 ac nid yw'n crybwyll fformatau fel CD a DVD, sydd yn eu tro yn cael eu disodli gan ffeiliau y gellir eu lawrlwytho o'r rhyngrwyd. Mae'r Ddeddf yn cyfeirio at *"books and other materials"* ac o ganlyniad i'r geiriad hwn bu modd cyfiawnhau darparu fformatau newydd. Un peth pwysig ynglŷn â Deddf 1964 yw ei bod yn sicrhau na chaiff llyfrgelloedd godi tâl am fenthyg llyfrau ond ei bod yn caniatáu taliadau am ddeunyddiau eraill. Yn y byd amlgyfrwng heddiw mae hyn yn anfantais i fenthycwyr sy'n dymuno darllen, gweld neu wrando ar gyhoeddiad mewn fformat sy'n gweddu i'w hanghenion arbennig. Yn ffodus mae llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru wedi cymryd safbwynt goleuedig ac maent yn darparu mynediad di-dâl at wasanaethau fel e-lyfrau ac e-gylchgronau a fyddai'n cael eu darparu'n draddodiadol ar ffurf brintiedig.

## Deddfau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Eraill

192. Bu Sweden, Denmarc, Norwy a'r Ffindir yn flaengar wrth ddatblygu llyfrgelloedd cyhoeddus yn y degawdau diwethaf ac mae ganddynt i gyd ddeddfwriaeth ar lyfrgelloedd. Cyhoeddwyd llawer o'r Deddfau hyn ar ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000au. Mae ymchwil gychwynnol yn dangos bod yr holl Ddeddfau llyfrgelloedd hyn yn rhoi darlun bras ond na cheir ynddynt fawr o fanylion am ddarpariaeth, ariannu, darparu a llywodraethu. Mae'r Deddfau yn sefydlu natur statudol y gwasanaeth a benthyciadau di-dâl o gasgliadau llyfrgelloedd (ond nid fformatau penodol). Mae llawer hefyd yn cyfeirio at drefniadau mynediad ar gyfer llyfrgelloedd a ariennir yn gyhoeddus, er enghraifft llyfrgelloedd academaidd a hefyd at ddarparu llyfrgelloedd ysgol. Mae crynodebau nifer o Ddeddfau llyfrgelloedd cyhoeddus ar gael ar wefan Ffederasiwn Rhyngwladol y Cymdeithasau Llyfrgelloedd.[53]

193. *Libraries Act (Northern Ireland) 2008*[54] yw'r ddeddfwriaeth fawr ddiweddaraf mewn perthynas â llyfrgelloedd cyhoeddus yn y DU ac Iwerddon. Unwaith eto, darlun bras a geir o'r modd y mae gwasanaethau llyfrgelloedd i'w darparu ac fe nodir:

*In carrying out its duty under subsection (1), the Authority shall—*

*a) secure that facilities are available for the borrowing of, or reference to, library materials sufficient in number, range and quality to meet the general requirements of adults and children (whether by keeping adequate stocks, by arrangements with other bodies concerned with library services or by any other appropriate means);*

*b) have regard to the desirability of—*

*(i) encouraging both adults and children to make full use of the library service;*

53 IFLA. (diweddarwyd 2012). *Public Library Acts.* Ar gael yn http://www.ifla.org/publications/public-library-acts

54 Y Llyfrfa Cyfyngedig. (2008). *Libraries Act (Northern Ireland) 2008.* Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/nia/2008/8/section/2

*(ii) providing advice as to the use of the library service and making available such bibliographical and other information as may be required by persons using the service;*

*(iii) promoting literacy and lifelong learning;*

*(iv) maintaining a collection of library materials relevant to the cultural heritage of Northern Ireland;*

*(v) making library premises available for cultural and community activities; and*

*(vi) meeting any special requirements of adults and children by any appropriate means.*

194. Roedd y Ddeddf yn rhagflaenu sefydlu awdurdod llyfrgelloedd unigol i redeg gwasanaethau llyfrgelloedd yng Ngogledd Iwerddon, sef Libraries NI (http://www.librariesni.org.uk/).

## Pwerau Deddfwriaethol

195. Os bydd angen mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â llyfrgelloedd cyhoeddus. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn faes sydd wedi ei ddatganoli ac o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 caiff y Cynulliad Cenedlaethol basio deddfwriaeth sylfaenol, a elwir yn "Ddeddfau'r Cynulliad", mewn meysydd lle mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol. Mae Adran 108 Deddf 2006, ynghyd â Rhan 1 o Atodlen 7, yn nodi cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad trwy restru 20 maes bras gan gynnwys diwylliant, sy'n cynnwys, *"Arts and crafts. Museums and galleries. Libraries. Archives and historical records. Cultural activities and projects"*.

196. Ar ôl ystyried y dystiolaeth uchod, daeth y Panel i'r casgliad y byddai'n fuddiol datblygu Deddf llyfrgelloedd lawnach, mwy modern ynghyd â chyfarwyddyd statudol manylach.

197. Fodd bynnag mae angen datblygu cyfarwyddyd statudol ar frys i helpu i oleuo a diffinio beth yw "comprehensive and efficient service" dan delerau'r Ddeddf bresennol. Mae trafodaethau Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a thrafodaethau CyMAL ag awdurdodau lleol ynghylch Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi pwysleisio'r angen am eglurder ynghylch natur statudol/anstatudol y Safonau. Roedd consensws ar y Panel fod Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi helpu i sicrhau gwasanaethau mwy cyson ledled Cymru ac wedi arwain dros y 10 mlynedd diwethaf at welliannau yn y ddarpariaeth a sut mae'n cael ei ddarparu. Byddai'n briodol felly ystyried datblygu canllawiau statudol ar sail y Fframwaith ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, lle gellir diwygio'r manylion yn rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus sy'n esblygu.

## Argymhelliad:

XI. Dylai Llywodraeth Cymru weithredu'r broses ddeddfwriaethol angenrheidiol a fyddai'n rhoi statws canllawiau statudol i Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, mewn perthynas â'r dyletswyddau a osodwyd gan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried cyflwyno deddfwriaeth newydd i adlewyrchu'r gofynion newidiol i'r llyfrgell gyhoeddus gyflenwi gwasanaethau ar y cyd ag eraill mewn amgylcheddau digidol.


HQ is stormed by rebels
Mystery of beach man who's lost all memory

# 5. Sylwadau i Gloi

198. Adolygodd y Panel dystiolaeth sylweddol a gwerthfawr gan wahanol randdeiliaid oedd â sbectrwm eang o farn. Cadarnhaodd yr adolygiad bwysigrwydd y gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a'r effaith gadarnhaol y mae llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Bydd llyfrgelloedd yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth barhau i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel cynhwysiant cymdeithasol, dysgu gydol oes, llythrennedd, cynhwysiant digidol, iechyd a lles a chydlyniant cymunedol.

199. Mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn wynebu heriau sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canol oherwydd y pwysau ar gyllid awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Fe welir newidiadau sylweddol yn y blynyddoedd nesaf mewn strwythurau corfforaethol. Cyflenwir mwy o wasanaethau yn ddigidol a bydd rôl newidiol ar gyfer adeiladau llyfrgelloedd a disgwyliad i'r staff gael sgiliau newydd; mae datblygiadau o amgylch y byd yn tystio i hyn. Gyda'i gilydd, bydd y rhain yn cynnig yr her fwyaf sylweddol i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a welodd Cymru ers degawdau lawer.

200. Oni fydd awdurdodau llyfrgell, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn cydweithio'n frwdfrydig i fynd i'r afael â'r heriau a'r pwysau ariannol, bydd y llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir yng Nghymru yn cael eu niweidio yn y fath fodd fel na ellir ei adfer ac ni fyddant yn gallu diwallu anghenion eu cymunedau lleol mwyach.

201. Nid yw'n bosibl cadw pethau fel y maent. Mae angen sefydlu strategaeth glir ar gyfer llyfrgelloedd, gydag arweinwyr i sicrhau nad yw pobl sydd eisoes dan anfantais yn dioddef anfantais bellach, yn enwedig am fod Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ar-lein, a hynny'n arwain at gostau ychwanegol i wasanaethau eraill a ariennir gan arian cyhoeddus. Mae gan lyfrgelloedd rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas gan gydweithio â mudiadau cymorth eraill.

202. Credwn fod yr egwyddor y dylai pawb gael mynediad di-dâl at wybodaeth yn parhau i fod yn sail i'n gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Fodd bynnag, mae angen mynd ati i roi ystyriaeth i fodelau newydd i reoli a chyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd er mwyn wynebu'r wasgfa ariannol, y gofynion newidiol a disgwyliadau'r defnyddwyr.


Fran
CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

# Atodiad 1

## Cylch Gorchwyl

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mewn Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2013 cyhoeddodd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon y byddai'n comisiynu adolygiad arbenigol o gynlluniau'r awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn awr ac i'r dyfodol. Gofynnid i'r adolygiad ystyried hefyd y posibilrwydd o gael modelau newydd o ddarpariaeth yn seiliedig ar gydweithio mewn partneriaeth.

1.2 Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i ddarparu 'a comprehensive and efficient library Service for all persons desiring to make use therof' dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964. Dan y Ddeddf, mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i arolygu'r gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a hyrwyddo eu gwella.

### 2. Cefndir

2.1 Darperir gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru gan wasanaethau llyfrgelloedd y 22 o awdurdodau lleol.

2.2 Ers 2004, mae Llywodraeth Cymru, trwy CyMAL, wedi arwain ymagwedd strategol at ddatblygu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Buddsoddwyd £20 miliwn mewn gwella llyfrgelloedd lleol, cyflwyno gwasanaethau digidol cenedlaethol a chynllun hyfforddi cenedlaethol a hyrwyddo partneriaethau rhanbarthol. O ganlyniad, Cymru sydd â'r unig fframwaith strategol i ddatblygu llyfrgelloedd yn y DU.

2.3 Ers 2002, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ar waith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (y Safonau) mewn fframweithiau o gylchoedd tair blynedd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r Safonau i fonitro ac asesu perfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd awdurdodau lleol a thrwy hyn fe gefnogir y Gweinidog wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd i arolygu llyfrgelloedd cyhoeddus.

2.4 Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r Safonau wedi helpu i gyflenwi gwasanaeth mwy cyson ledled Cymru ac wedi arwain at welliannau yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ac yn y modd y cânt eu darparu.

2.5 Wrth ymateb i'r cyd-destun ariannol heriol presennol, mae rhai awdurdodau lleol wedi cyhoeddi cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol ar sut y mae gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru. Er mwyn sefydlu model cryfach a mwy cynaliadwy i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi adolygiad arbenigol.

### 3. Pwrpas yr Adolygiad Arbenigol

3.1 Mae pwrpas yr adolygiad yn ddeublyg:

- Bydd yn adolygu'r newidiadau arfaethedig gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus o fis Ebrill 2014 ymlaen er mwyn asesu a yw'r cyflenwad diwygiedig yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithlon ledled Cymru, gan dynnu sylw at arferion gorau ac unrhyw bryderon.
- Bydd yn adnabod modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau i'r dyfodol a fydd yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd a geir trwy gydweithio, partneriaeth ac arloesedd.

### 4. Cwmpas yr Adolygiad

4.1 Bydd yr adolygiad yn berthnasol i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn unig a bydd yn ystyried y cyfleoedd i gydweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

4.2 Bydd yr adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth. Cesglir tystiolaeth fanwl am:

- y ddarpariaeth bresennol;
- cynigion gan awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau llyfrgell ar ôl mis Ebrill 2014 yn nhermau,
  - strategaethau lleol;
  - ymgyngoriadau a wnaed;
  - asesiadau o effaith (dyletswyddau cydraddoldeb ar gyrff cyhoeddus dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010);
- barn rhanddeiliaid;
- effaith debygol newidiadau ar berfformiad dan y 4ydd a'r 5ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru;
- enghreifftiau presennol o'r arferion gorau mewn cydweithio a chydleoli gwasanaethau;
- cymariaethau â strategaethau llyfrgelloedd cyhoeddus cenedlaethol eraill.

4.3 Ar ôl astudio'r sefyllfa bresennol, bydd yr adolygiad yn ystyried modelau cynaliadwy posibl ar gyfer darparu gwasanaethau sydd wedi'u hadnabod trwy ymchwil (i'r sefyllfa yn y DU a thramor) a thystiolaeth gan randdeiliaid ar:

- dueddiadau mewn gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol;
- modelau addas ar gyfer darparu gwasanaethau;
- fframweithiau deddfwriaethol addas.

## 5. Proses

5.1 Mae'r Gweinidog wedi cytuno ar y cylch gorchwyl ac wedi penodi panel o arbenigwyr annibynnol dan gadeiryddiaeth Claire Creaser, Cyfarwyddwr LISU, Prifysgol Loughborough. Aelodau eraill y panel yw'r Athro Hywel Roberts, Dr Steve Davies, Prifysgol Caerdydd a Peter Gomer, CLlLC.

5.2 Cefnogir y Panel gan swyddogion CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd.

### 5.3 Bydd yr Adolygiad:

- yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i ymchwiliad byr Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i lyfrgelloedd cyhoeddus
- yn nodi canfyddiadau'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac adroddiad y Farwnes Kay Andrews *Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth i Hybu Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru*
- yn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd gan arolygiad o gyllidebau awdurdodau lleol
- yn ystyried canfyddiadau adolygiadau o lenyddiaeth ac arolygon cymharol perthnasol.

## 6. Rhanddeiliaid sydd â Diddordeb

6.1 Hefyd, bydd y Panel Cyfeiriol yn ystyried tystiolaeth ynghylch:

- Gwasanaethau llyfrgelloedd eraill
- Defnyddwyr llyfrgelloedd a'r rhai nad ydynt yn defnyddio llyfrgelloedd
- Grwpiau cymunedol
- Cyrff proffesiynol
- Cyrff yn y sector cyhoeddus
- Cyrff yn y trydydd sector
- Cyrff yn y sector preifat ac ymddiriedolaethau

## 7. Amserlen a Cherrig Milltir Allweddol

| Cam 1 | |
|---|---|
| Chwefror 2014 | Datblygu'r Cylch Gorchwyl drafft<br>Penodir aelodau'r Panel Cyfeiriol Arbenigol gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd. |
| Awst 2014 | Cyflwyno'r adroddiad drafft cychwynnol i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd. |
| Cam 2 | |
| Medi 2014 – Ionawr 2015 | Cytuno ar yr Adroddiad Adolygu gyda'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.<br><br>Caniatâd gan y Gweinidog i gyhoeddi'r adroddiad a gwahodd sylwadau. |
| Chwefror 2015 – Mawrth 2015 | Adolygu'r ymchwil a'r camau gweithredu yn dilyn argymhellion yr adroddiad. |
| Gwanwyn 2015 | Cyhoeddi unrhyw gynnigion newydd a dechrau ar y gwaith i gynllunio'r strategaeth newydd ar gyfer 2016. |

## 8. Allbwn

8.1. Yng Ngham 1, bydd yr adolygiad yn diweddu gydag adroddiad gan y Panel a fydd yn darparu ymchwil, dadansoddiad a sylwadau ar sut y cyflenwir gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru ar hyn o bryd, ynghyd ag argymhellion ar gyfer nifer cyfyngedig o fodelau ar gyfer sut y gellir darparu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus i'r dyfodol.

8.2. Yng Ngham 2, bydd y gwaith sydd yn cael ei wneud o dan argymhellion yr adroddiad yn cael ei bwydo mewn i ddatblygu'r fframwaith strategol newydd ar gyfer darparu gwasanaethau llyfrgell cyhoeddus i olynu Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli. Bydd y strategaeth genedlaethol nesaf ar gyfer llyfrgelloedd yn cael ei weithredu yn 2016.

# Atodiad 2

## Llyfryddiaeth Ddethol


Arts Council England. (2012/13). *Envisioning the library of the future*.

Arts Council England. (2013). *Learning from experience: guiding principle for local authorities.*

Audit Commission. (2012). *Striking a Balance.*

Carnegie UK Trust. (2012). *A New Chapter: Public library services in the 21st century.*

Carnegie UK Trust. (2012). *A New Chapter: Public library services in the 21st century – Welsh data about attitudes to and use of public libraries.*

Carnegie UK Trust. (2014). *Speaking Volumes.*

Cavanagh, M. (2014). *Are Community Managed Libraries Effective? (Traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi).*

Child, R. a Goulding A. (2012). *Public libraries in the recession: the librarian's axiom". Library Review*, Cyfrol 61 Rhifyn: 8/9, tt.641 – 663.

CIPFA. (2014). *Public Library Statistics 2013/14 Estimates and 2012/13 Actuals.*

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (2010). *Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.*

Cyfranogaeth Cymru. *Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru* (2011).

Cyfranogaeth Cymru. The Evaluation Toolkit. (2011).

Cyfranogaeth Cymru. *Practitioners' Manual for Public Engagement* (2012).

Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru. (2010). *Cau'r Gagendor Digidol*.

Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru. (2013). *Llyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru: Gweithlu.*

Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru. (2013). *Datganiad Sefyllfa ar Wirfoddoli mewn Llyfrgelloedd Cyhoeddus.*

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. (2011). *Moderneiddio Llyfrgelloedd.*

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. (2013). *Model volunteering policy.*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. (2013/14). *Ymchwiliad i Lyfrgelloedd Cyhoeddus.*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. (2014). *Llyfrgelloedd Cyhoeddus.*

Danish Agency for Culture. (2013). *Model Programmes for Public Libraries.*

Danish Agency for Libraries and Media. (2010). *Public libraries in a knowledge Society: Summary from the committee on public libraries in the knowledge society.*

Department of Culture and Sport. (2009). *A Local Inquiry into the Public Library Service Provided by Wirral Metropolitan Borough Council Led by Sue Charteris.*

Department of the Environment, Community and Local Government. (2013). *Opportunities for All: The public library as a catalyst for economic, social and cultural development – A strategy for public libraries 2013-17.*

Galway County Council. *Gifts and Donations Galway Public Library Service*. Gwelwyd 14 Gorffennaf 2014.

Hapel, R. (2010). *Urban Mediaspace Aarhus*. BFP, Cyfrol 34, tt. 331-336.

Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1964). *Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd 1964*.

Llyfrfa Ei Mawrhydi. (1991). *Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell (Cymru a Lloegr 1991/2712.*

High Court of Justice. (2011). *The Queen on the Application of Green v Gloucestershire and the Queen on the Application of Rowe v Somerset County Council.*

IFLA. (2012). *Public Library Acts.*

Lincolnshire Echo. (26 June 2014). *Alford Library blow as volunteers stand down.*

Prifysgol Loughborough. (2014). *LISU's UK Library Statistics / 03/02/2014: Library Expenditure.*

Roberts, H. (2006). *Y Gweithlu yn Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.*

Scotinform. (2011). *Evaluation of Libraries for Life.*

Scottish Executive / Scottish Library and Information Council. (2007). *Building on success: a public library quality improvement matrix for Scotland.*

Simon, A. a Horton, S. (2008). *Gwerthuso @ Eich Llyfrgell Chi: rhaglen strategol gychwynnol datblygu llyfrgelloedd 2005-2007.*

Y Llyfrfa Cyfyngedig. (2008). *Libraries Act (Northern Ireland) 2008.*

Y Llyfrfa Cyfyngedig. (2009). *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru 2009.*

State Government of Victoria. (2012/13). Tomorrow's Library: Stage 1 and 2.

Twelfth Man. (2005). National Marketing Strategy (2006-2011).

Twelfth Man. (2009). Cwsmer Cudd.

Llywodraeth Cymru. (2011). *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli: Fframwaith strategol ar gyfer datblygu Llyfrgelloedd Cymru 2012-2016.*

Llywodraeth Cymru. (2012). *Deall Dyfodol Cymru.*

Llywodraeth Cymru. (2013). *Datganiad Ysgrifenedig -Provisional Local Llywodraeth Setliad 2014-2015.*

Llywodraeth Cymru. (2014). *Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus.*

Llywodraeth Cymru. (2014). *Llyfrgelloedd yn gwneud gwahaniaeth: Pumed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-2017.*

Llywodraeth Cymru. (2014). *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2012-13: Digital.*

Llywodraeth Cymru. (2014). *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol.*

Maceviciute, E. a Wilson, T. D. (2013). *E-Books in Swedish Public Libraries: Policy Implications.*

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. (2013). *Scenarios for Welsh Government Budget to 2025-26.*

# Atodiad 3: Hawliau Craidd (Pumed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru)

## Cwsmeriaid a Chymunedau

- Sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwys wrth law i helpu.
- Cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi dysgu, mwynhad a galluogi defnyddwyr i gael y budd mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.
- Darparu mynediad at ystod o wasanaethau ac adnoddau i gefnogi dysgu gydol oes, lles a datblygiad personol, a chyfranogiad cymunedol.

## Mynediad i Bawb

- Bod ar agor i holl aelodau eu cymunedau.
- Bod yn rhad ac am ddim i ymuno â hwy.
- Darparu lle diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas.
- Darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.

## Dysgu am Oes

- Benthyca llyfrau am ddim
- Cynnig mynediad am ddim i wybodaeth
- Darparu defnydd am ddim o'r Rhyngrwyd a chyfrifiaduron, gan gynnwys Wi-Fi.
- Cynnig defnydd am ddim o adnoddau gwybodaeth ar-lein 24 awr y dydd.
- Darparu mynediad at adnoddau o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys rhai yn yr iaith Gymraeg, ac yn adlewyrchu ffurfiau newidiol cyhoeddi.
- Rhannu eu catalogau, er mwyn i ddefnyddwyr fedru gwneud un chwiliad drwy holl adnoddau llyfrgelloedd Cymru.

## Arwain a Datblygu

- Hyrwyddo llyfrgelloedd er mwyn denu rhagor o bobl i elwa o'u gwasanaethau.
- Ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.
- Gweithio mewn partneriaeth i agor mynediad at adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.
- Darparu mynediad at strategaeth, polisïau, amcanion a gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.
- Darparu proses gwyno sy'n glir, yn amserol ac yn dryloyw ar gyfer adegau pan fo rhywbeth yn mynd o'i le.

| | |
|---|---|
| **Ar gyfer gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gael os gofynnir amdanynt. |
| **Manylion cyswllt** | **Tîm Datblygu Llyfrgelloedd**<br>CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr<br>Aberystwyth<br>SY23 3UR |
| **E-bost:** | cymal@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffôn:** | 0300 062 2112 |
| **Gwefan:** | www.cymru.gov.uk/cymal |

Lluniau: © Llywodraeth Cymru – Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli

ISBN digidol 978 1 4734 2070 0
WG22038
© Hawlfraint y Goron 2014